



# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys



## Adroddiad Blynyddol
## Ebrill 2024 hyd at Fawrth 2025





Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal Cymdeithasol

One Powys Yn Un

Powys Regional Partnership Board
Health and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CRYNODEB GWEITHREDOL | TUDALEN 3 |
| RÔL A DIBEN Y BWRDD | TUDALEN 5 |
| Y STRATEGAETH IECHYD A GOFAL | TUDALEN 6 |
| SUT MAE GWAITH Y BWRDD YN CAEL EI WNEUD | TUDALEN 7 |
| HUNANASESIAD | TUDALEN 8 |
| AELODAETH Y BWRDD | TUDALEN 10 |
| DECHRAU'N DDA | TUDALEN 11 |
| BYW'N DDA | TUDALEN 15 |
| HENEIDDIO'N DDA | TUDALEN 19 |
| GWAITH TRAWSBYNCIOL | TUDALEN 25 |
| YR ADNODDAU AR GYFER Y GWAITH HWN | TUDALEN 46 |
| BLAENOLWG | TUDALEN 46 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys (PRB) wedi parhau i ddod ag iechyd, gofal cymdeithasol, a phartneriaid ehangach at ei gilydd i wella canlyniadau i bobl led led Powys. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu blwyddyn o gydweithio, arloesi, ac ymrwymiad ar y cyd i wneud gwasanaethau iechyd a gofal yn fwy integredig, hygyrch ac wedi'u canolbwyntio ar yr unigolyn.

Wrth galon gwaith y RPB mae'r **Strategaeth Iechyd a Gofal** ar y cyd, *"Powys Iach a Gofalgar,"* sy'n nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ymdrechion y Bwrdd wedi'u strwythuro o amgylch tair partneriaeth sy'n seiliedig ar gwrs bywyd - **Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, a Heneiddio'n Dda**- ac mae pob un ohonynt wedi cyflawni gwelliannau pendant i ddeilliannau i blant, oedolion, a phobl hŷn.

- Mae **Dechrau'n Dda** wedi ehangu'r Hybiau Cymorth Cynnar a gwasanaethau lles emosiynol, gan gefnogi dros 3,600 o bobl ifanc a helpu teuluoedd i gael mynediad at gymorth yn gynt ac yn nes at adref.
- Mae **Byw'n Dda** wedi dechrau datblygu model newydd ar gyfer cyfleoedd dydd, wedi atgyfnerthu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, ac wedi hyrwyddo cefnogaeth i niwroamrywiaeth drwy atebion cydgynhyrchiedig.
- Mae **Heneiddio'n Dda** wedi gwella cymorth yn y cartref, lleihau oedi mewn ysbytai, ac agor tai gofal ychwanegol newydd, gan alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a chydag urddas.

Y tu hwnt i wasanaethau sy'n benodol i oedran, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) wedi hyrwyddo ystod o fentrau **trawsbynciol** sy'n ymestyn ar hyd cwrs bywyd:

- **Gofalwyr:** Cafodd dros 2,500 o ofalwyr di-dâl eu cefnogi gan Credu, gyda dulliau a digwyddiadau allgymorth newydd sy'n helpu gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu gweld, eu cefnogi a'u cysylltu.
- **Y Gymraeg:** Roedd prosiect y Cynnig Rhagweithiol wedi helpu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda dulliau ymarferol a hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.
- **Cefnogaeth Canser:** Roedd rhaglen Gwella'r Daith Ganser wedi dyblu ei hatgyfeiriadau ac fe grëwyd un pwynt mynediad ar gyfer cefnogaeth holistig.
- **Dyfodol y Gweithlu:** Cyrhaeddwyd at dros 5,500 o ddisgyblion trwy addysg gyrfaoedd, a chwblhaodd bron 600 o aelodau staff hyfforddiant mewn arweinyddiaeth dosturiol. Mae pecyn cymorth newydd i wirfoddolwyr a rhaglen ddatblygu i ofalwyr hefyd yn cyfrannu tuag at ddatblygu gweithlu medrus, gwydn.

**Gwaith Atal wrth Wraidd Popeth**

Un o'r themâu allweddol drwy gydol y flwyddyn fu'r symudiad tuag at waith atal ac ymyrraeth gynnar. O fodelau lles emosiynol i blant i gymorth cymunedol i oedolion hŷn, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi rhoi blaenoriaeth i wasanaethau sy'n lleihau'r angen am gymorth dwysach ac yn hybu annibyniaeth. Mae'r ethos ataliol hwn wedi'i wreiddio ar draws pob partneriaeth ac yn ganolog i nodau cynaliadwyedd hirdymor y Bwrdd.

**Integreiddio a Phartneriaeth ar Waith**

Mae cryfder y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorwedd yn ei allu i ddod ag ystod eang o bartneriaid ynghyd. Eleni, cafwyd cynnydd parhaus wrth ddatblygu dulliau newydd o gydweithio, gan gynnwys cyflwyno rolau aseswyr dibynadwy. Mae Rhaglen Llesiant Gogledd Powys a menter Dyfodol y Gweithlu yn enghreifftiau pellach o sut mae cynllunio a chyflwyno integredig yn arwain at wasanaethau mwy di-dor ac effeithiol.

**Ymgysylltu a Chydgynhyrchiant: Gwrando, Dysgu, Gweithredu**

Mae lleisiau dinasyddion a gofalwyr wedi bod yn ganolog i siapio gwasanaethau. Trwy fforymau, rhwydweithiau a rolau cynrychioliadol, mae pobl sydd â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon wedi cyfrannu tuag at ddylunio, gwerthuso a gwella gwasanaethau. Mae datblygu Traciwr Taith Cydgynhyrchiant Powys a gwaith Rhwydwaith Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Powys yn helpu i wreiddio diwylliant o ymgysylltu ystyrlon ar draws y system.

**Arloesedd a Dulliau Newydd o Weithio**

Mae arloesedd wedi bod yn nodwedd ddiffiniol o'r flwyddyn. O apiau caniatâd digidol i fodelau newydd o gymorth iechyd emosiynol, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) wedi cofleidio atebion creadigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r Hwb Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol yn parhau i gefnogi'r gwaith o dreialu a graddio syniadau newydd.

**Edrych Ymlaen a'r Cynllun Cyflwyno Blynyddol**

Wrth i'r RPB symud ymlaen tuag at 2025–26, bydd y ffocws ar sefydlu'r newidiadau hyn yn ddyfnach ac yn ehangach — gan sicrhau bod arloesedd yn dod yn drefn arferol, bod cydgynhyrchiant yn dod yn norm, ac y cynhelir ac y graddir dulliau integredig ac ataliol. Gyda chynllun cyflwyno blynyddol clir, partneriaethau cryfion, ac ymrwymiad ar y cyd i wella bywydau, mae'r Bwrdd mewn sefyllfa gadarn i barhau i gyflawni newid ystyrlon i bobl Powys.

# RÔL A DIBEN Y BWRDD

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Powys yn dwyn ystod o gynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus a phobl allweddol eraill ynghyd gan gynnwys dinasyddion, er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio'n well i wella iechyd a lles pobl Powys. Mae Cylch Gorchwyl y RPB yn ddatganiad o fwriad sy'n nodi'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni:



- Creu momentwm ar gyfer gwelliannau hanfodol, drwy nodi blaenoriaethau allweddol i ddinasyddion Powys a chanolbwyntio ymdrechion i sicrhau bod y rheini'n cael eu trafod

- Cynyddu'r ffocws ar waith atal ac ymyrraeth gynnar drwy annog dinasyddion i reoli a chael perchnogaeth mewn materion iechyd a lles er mwyn lleihau'r angen cynyddol

- Sicrhau bod llais y dinesydd nid yn unig yn cael ei glywed ond ein bod yn gweithredu arno i wella gwasanaethau

- Defnyddio gwybodaeth am anghenion dinasyddion yn y dyfodol wrth gynllunio gwasanaethau ar draws y sbectrwm o angen a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i'r eithaf drwy ymgysylltu'n ddoeth â chyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch tebyg

- Sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol drwy weithlu a gwirfoddolwyr medrus a chymhellgar

- Hyrwyddo'r broses o integreiddio gofal a chymorth rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd

- Sicrhau cydgynhyrchu a chomisiynu gwasanaethau gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n hyrwyddo gwasanaethau cysylltiedig a di-dor sy'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd

- Meithrin arferion newydd arloesol a hyrwyddo diwylliant dysgu gan sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith i bontio'r bwlch rhwng cyfathrebu sefydliadol a chyhoeddus ar gynllunio a chyflawni gwasanaethau.


# STRATEGAETH IECHYD A GOFAL

Mae gwaith y RPB yn cael ei lywio gan Strategaeth Iechyd a Gofal Powys, “Powys Iach, Ofalgar” sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal ym Mhowys hyd at 2028. Mae'r holl bartneriaid wedi dod at ei gilydd i adolygu ac adnewyddu'r blaenoriaethau hyn ac i lunio ein hail Gynllun Ardal ar y Cyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r Cynllun Ardal ar y Cyd newydd yn adeiladu ar gynnydd a gwersi’r pum mlynedd diwethaf ac yn ymateb i'r hyn mae pobl Powys wedi'i ddweud am eu hiechyd a'u gofal, a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym ni wedi defnyddio ein dealltwriaeth newydd o fywyd yn y sir yn helaeth gyda'r farn a'r dystiolaeth ddiweddaraf yn cael eu casglu fel rhan o **Asesiad Anghenion Poblogaeth Powys (2022)**, **Asesiad Lles (2022)**, **Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Powys (2022)** yn ogystal ag ymchwil, adborth a pholisi newydd arall.

Mae'r Cynllun Ardal newydd yn nodi sut y gallwn ni wella iechyd a lles pobl ym Mhowys a bydd yn cyflawni camau olaf ein huchelgais deng mlynedd. I weld y Cynllun Ardal wedi'i ddiweddaru ynghyd â'r blaenoriaethau a adolygwyd, edrychwch ar www.powysrpb.org




# SUT MAE GWAITH Y BWRDD YN CAEL EI WNEUD

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer iechyd a gofal ym Mhowys a'r blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer cydweithio. Mae'r pedair is-bartneriaeth yn allweddol i gyflawni'r uchelgais a'r meysydd blaenoriaeth: Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Byw'n Dda (Iechyd Meddwl) a Heneiddio'n Dda. Mae pob un ohonynt yn cynnwys grŵp llawer ehangach o bobl ac mae ganddynt hefyd eu his-grwpiau eu hunain sy'n gwneud gwaith manylach.

Mae ffocws penodol ar grŵp poblogaeth benodol gan bob grŵp- plant, pobl ifanc a theuluoedd (Dechrau'n Dda), Oedolion (y bartneriaeth Byw'n Dda), a Phobl Hŷn (Heneiddio'n Dda). Mae rhai meysydd ffocws yn berthnasol i'r holl grwpiau oedran hyn ac felly maen nhw'n drawsbynciol. Mae'r rhain yn cynnwys gofalwyr di-dâl er enghraifft, yn ogystal â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth perthnasol.

Mae ymgysylltu ehangach â phobl yn bwysig iawn ac mae gan y bartneriaeth a'r is-grwpiau amrywiol ffyrdd y gallant glywed llais pobl i helpu i lunio penderfyniadau. Mae Dechrau'n Dda, er enghraifft, yn cael Bwrdd Dechrau'n Dda Iau sy'n cynnwys pobl ifanc sy'n gallu trafod materion allweddol a rhoi adborth ar y rhain.

Mae Grŵp Gweithredol y RPB yn gweithredu fel grŵp goruchwylio a chydlynu strategol i helpu i sbarduno gwaith y RPB yn ei flaen ar draws partneriaid a chynnig cefnogaeth a her ar gyfer penderfyniadau allweddol. Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei gydlynu drwy'r Tîm RPB sy'n darparu cefnogaeth a chydlynu lefel uchel ar draws hyn i gyd.



# HUNANASESIAD

Cynhaliodd Bwrdd RPB Powys ymarferiad yn 2024 i nodi meysydd oedd yn gweithio’n dda, yn ogystal â meysydd lle'r oedd angen gwella. Amlygodd yr hunanasesiad hwn ffocws y Bwrdd ar wella llywodraethu, datblygu’r gweithlu, rheoli adnoddau, a modelau gofal integredig, tra’n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu, arloesi, ac adeiladu ymddiriedaeth hefyd.

Nodwyd nifer o agweddau cadarnhaol lle mae pobl yn cydweithio ar y lefel strategol uchaf i ddarparu deilliannau gwell i bobl Powys. Ochr yn ochr â hyn, daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg, gan dynnu sylw at gyfleoedd i wneud mwy a chael effaith fwy, fel a ganlyn:

**Systemau a Threfniadau Llywodraethu**

- *Trosolwg Strategol:* Dylai’r RPB ystyried trosolwg strategol o adnoddau a rennir, comisiynu ar y cyd, a gwneud penderfyniadau i sicrhau eu bod yn parhau’n addas at y diben.
- *Ymgysylltu:* Mae angen sicrhau mwy o gyfranogiad ystyrlon gan bobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ym mhob agwedd ar weithgareddau’r bartneriaeth ar draws ei holl strwythurau.
- *Hygyrchedd:* Mae’n hanfodol gwneud gwaith y Bwrdd yn fwy hygyrch i weithwyr proffesiynol, partneriaid a dinasyddion – gan fod yn fwy tryloyw wrth wneud penderfyniadau.
- *Adeiladu Ymddiriedaeth:* Parhau i feithrin ymddiriedaeth rhwng partneriaid a gwella cyfathrebu ac atebolrwydd.

**Datblygu’r Gweithlu**

- *Rôl Gryfach*: Mae’r gweithlu yn parhau i fod yn un o’n prif flaenoriaethau i gefnogi newid systemig, felly dylai’r RPB barhau i chwarae rôl weithredol wrth arwain trawsnewid gweithlu ar y cyd.
- *Hyrwyddo:* Mae angen i waith datblygu’r gweithlu gael proffil uchel ym Mhowys.

**Adnoddau, Cyllid, a Chyfleusterau**

- *Blaenoriaethu:* Mae angen i’r RPB sicrhau ei fod yn parhau i flaenoriaethu meysydd gwaith allweddol ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau i gael yr effaith fwyaf ar y system ac ar wella canlyniadau i bobl ym Mhowys.

**Cynnydd wrth Ddatblygu Modelau Integredig o Ofal**

- *Arloesedd:* Dylai’r Bwrdd barhau i annog prosiectau i ystyried enghreifftiau arloesol o bob cwr o Gymru ac o fewn Powys.

- *Adrodd:* Parhau i wella'r dull o adrodd, gan gynnwys datblygu aeddfedrwydd gwybodaeth ansoddol i gefnogi gwasanaethau iechyd, gofal a lles integredig.

Mae rhai o'r meysydd hyn eisoes wedi'u cyflawni drwy waith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys, ond bydd eraill yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fel rhan o Raglen Datblygu Partneriaeth y Bwrdd, bydd hunanasesiad yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf i ddeall y cynnydd a wnaed ac i nodi cyfleoedd pellach i wella.

# AELODAETH Y BWRDD

**Cadeirydd y RPB,** Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

**Cyd-Is-gadeirydd y RPB,** Aelod Cabinet dros Bowys Ofalgar, Cyngor Sir Powys

**Cyd-Is-gadeirydd y RPB,** Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles,** Cyngor Sir Powys

**Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

**Cyfarwyddwr Addysg,** Cyngor Sir Powys

**Ymgynghorydd Polisi,** Fforwm Gofal Cymru

**Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion,** Cyngor Sir Powys

**Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

**Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cynradd, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl,** Bwrdd Iechyd Addysgu Powys **(**BIAP)

**Aelodau sy'n Ofalwyr**

**Aelodau sy'n Ddinasyddion**

**Cynrychiolydd Landlord Gwerth Cymdeithasol,** Barcud

**Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol,** Cyngor Sir Powys

**Cynrychiolwyr y Trydydd Sector,** Gofal a Thrwsio ym Mhowys a'r Gymdeithas Alzheimer's

**Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus,** BIAP

**Cyfarwyddwr Cynorthwyol Grŵp Gwasanaethau Cymunedol,** BIAP


Arsylwr – **Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llais (Powys) y Dinesydd ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# DECHRAU'N DDA

Mae'r Bartneriaeth Dechrau'n Dda yn gweithio i gryfhau a thrawsnewid gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym Mhowys. Mae'r Bwrdd Dechrau'n Dda yn gweithio i ddatblygu hybiau Cymorth Cynnar ar draws y sir, gyda gwaith amlasiantaethol wrth eu gwraidd, gan sicrhau bod plant a theuluoedd wrth galon y gwasanaethau a ddarperir. Sefydlwyd yr hybiau i gynnig amgylchedd gofalgar, grymusol a diogel i deuluoedd, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yn agosach at adref.

Eleni, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn gweithio ymhellach i ddatblygu model NEST /NYTH, sy'n sicrhau dull cynhwysfawr tuag at iechyd meddwl, llesiant a gwasanaethau cymorth. Mae'r bartneriaeth wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol, megis mwy o fynediad at gymorth iechyd emosiynol, atgyfeirio at wasanaethau priodol, a datblygu darpariaeth therapiwtig i gefnogi pobl ifanc ac ymarferwyr.

Mae cadw plant yn ddiogel gartref yn un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd Dechrau'n Dda, ynghyd â darparu Gwasanaeth Ar Ymyl Gofal. Lle bo angen i blant ddod i ofal, mae'r Bwrdd yn gweithio i sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael yn agosach at adref. Mae datblygu llety ychwanegol i bobl 16 mlwydd oed a hŷn hefyd wedi bod yn un o gyflawniadau allweddol eleni.



# Uchafbwyntiau Dechrau'n Dda

## Cymorth Cynnar a Chwarae

Mae'r bartneriaeth yn parhau i gefnogi cymorth cynnar a chwarae drwy nifer o fentrau a phrosiectau allweddol. Un o'r rhain yw Powys Ynghyd, sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd am ddim i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r fenter hon yn hollbwysig i alluogi'r teuluoedd mwyaf difreintiedig i gymryd rhan mewn profiadau cyfoethog, gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb tra'n meithrin gwytnwch cymunedol a chysylltiadau lleol.

Mae pedwar cydlynydd Powys Ynghyd wedi'u lleoli yn Y Trallwng, Y Drenewydd, Llanidloes a Machynlleth, ac maent yn ymgysylltu'n weithredol â'u cymunedau lleol i ddeall eu cryfderau a'u hanghenion.

**Eleni, mae'r cydlynwyr wedi gweithio gyda dros 2,200 o blant ac oedolion. Mae dros 130 o sesiynau cymunedol wedi'u darparu, gyda 99% o'r adborth yn gadarnhaol.**

Mae'r tîm wedi cynnal 33 o gyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid ac wedi mynychu 199 o gyfarfodydd yn y gymuned. Maent hefyd wedi cynnal 45 o ddigwyddiadau ymgynghori gyda'r gymuned, sy'n helpu i lywio'r gweithgareddau a'r digwyddiadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau llwyddiannus a gynhaliwyd eleni

- Dyddiau hwyl i deuluoedd a gwyliau, gan gynnwys *Gŵyl Garedigrwydd* a fynychwyd gan dros 2,000 o aelodau'r gymuned.
- Gweithgareddau glan afon mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth yr Afon Hafren i blant ag anableddau.
- Sesiynau clwb ieuenctid, gan gynnwys cefnogaeth i glwb ieuenctid ym Machynlleth sydd wedi lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref.
- Disgos distaw i blant ag anableddau, rygbi cadair olwyn, sesiynau synhwyraidd i fabanod, sesiynau celf a chrefft, mentrau diogelwch ar-lein, a sesiynau ymwybyddiaeth am arian.

## Iechyd a Lles Emosiynol

Mae Powys wedi datblygu Model Iechyd a Lles Emosiynol, sy'n dwyn pob elfen o iechyd a lles emosiynol plant, pobl ifanc a theuluoedd ynghyd. Mae'r prosiect yn gweithio'n bennaf gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd ac aelodau staff i ddarparu cymorth ar draws amrywiaeth o anghenion drwy fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau iechyd emosiynol a lles.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn amrywio o sesiynau un i un arbenigol i waith grŵp a gweithgareddau lle gall dosbarth cyfan gymryd rhan. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi galluogi partneriaid cyflwyno i gydweithio i nodi a llenwi bylchau, a rhannu a datblygu syniadau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu syniadau a awgrymwyd gan bobl ifanc, yn enwedig Caffi Ieuenctid yn Y Drenewydd, a gafodd ei ariannu'n wreiddiol drwy'r prosiect ond sydd bellach wedi denu arian gan y Loteri ac yn mynd o nerth i nerth.

Eleni, mae dros 3,600 o bobl ifanc wedi cael mynediad at y prosiect drwy gymorth un i un, gwaith grŵp a sesiynau cyffredinol. Mae'r data'n dangos cynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob chwarter, gan ddangos yn glir fod y galw'n cynyddu.

**Yn gyffredinol, mae 99% wedi adrodd bod eu hiechyd emosiynol a'u lles wedi cael ei gynnal neu ei wella ar ôl derbyn cymorth gan y prosiect.**

Felly, mae'r Prosiect Iechyd a Lles Emosiynol wedi bod yn allweddol i ddarparu gwasanaeth gwell i blant a phobl ifanc ym Mhowys.

## Gwasanaethau Arbenigol yn Agosach at Gartref



Mae'r bartneriaeth yn parhau i ddarparu cymorth dwys i wella'r trefniadau byw presennol ar gyfer plant a phobl ifanc fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd yn hytrach na mynd i ofal, lle mae'n ddiogel i wneud hynny.

Mae'r *Prosiect Ar Ymyl Gofal* yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gefnogi plant ar "Ymyl Gofal".

Drwy ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dull ymyrraeth gynnar, bydd y prosiectau yn cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd a chadw plant gartref yn ddiogel. Mae'r prosiect yn cydweithio â theuluoedd gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma, gan gynnwys meithrin gwytnwch, sefydlu trefn, a hyrwyddo hunanofal. I'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y prosiect, mae'r ffocws ar eu helpu i reoli dicter, meithrin gwytnwch, rheoleiddio emosiynau, a datblygu perthnasau iach, ymhlith sgiliau eraill.

Eleni, mae'r prosiect wedi gweithio gyda 563 o blant ac wedi derbyn 252 o atgyfeiriadau. O'r atgyfeiriadau hyn, roedd 88% yn canolbwyntio ar gefnogi plant ar ymyl gofal, roedd 5% yn ymwneud â sefydlogrwydd lleoliad (lleihau nifer y newidiadau lleoliad y mae plentyn yn eu profi), ac roedd 5% ar gyfer ailuno. Roedd y 2% sy'n weddill yn ymwneud â gwaith argyfwng, gan gynnwys ymyrraeth frys i atal lleoliadau teuluol neu ofal maeth yn chwalu.

Mae *Datblygiadau Preswyl* y Bartneriaeth wedi creu lleoliadau hyblyg, amrywiol ac o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Nes at Adref.

**Eleni, mae cyllid cyfalaf wedi'i ddefnyddio i brynu ac adnewyddu eiddo yn ne Powys i ddarparu pedwar byngalo un ystafell wely ar gyfer *Llety â Chymorth i bobl 16 oed a hŷn*, ynghyd â byngalo ar gyfer staff cefnogi sydd ar gael 24/7.**

# BYW'N DDA

Mae'r Bartneriaeth Byw'n Dda yn gweithio i greu amgylchedd cefnogol, grymusol ym Mhowys a fydd yn galluogi pobl i "Fyw'n Dda" a chyflawni canlyniadau iechyd da, trwy fod yn iach ac egnïol a thrwy allu cael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth gywir, ar yr adeg gywir.

Mae'r Bartneriaeth yn mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd a lles y boblogaeth o oedran gweithio ym Mhowys trwy ddull datblygiad cymunedol ac iechyd cyhoeddus, gan gynnwys cryfhau a thrawsnewid ffyrdd o weithio a gwasanaethau i bobl ag anableddau.

Mae Byw'n Dda yn cysylltu gyda phartneriaethau strategol eraill ym Mhowys, gan gynnwys y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bartneriaeth Iechyd Meddwl Byw'n Dda, lle mae gorgyffwrdd gydag iechyd meddwl a gofal cymhleth. Maen nhw hefyd yn partneru gyda'r Bwrdd Grantiau Cefnogi Tai lle mae croestoriad rhwng y gefnogaeth i atal digartrefedd gyda byw â chymorth.







Mae nifer o is-grwpiau partneriaeth, yn enwedig i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr ac i glywed eu llais, a hefyd i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl y Trydydd sector. Eleni mae'r Bartneriaeth wedi gweithio i wella ei llywodraethiant gan ganolbwyntio yn enwedig ar ymgysylltu a chydgynhyrchiant gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

## Uchafbwyntiau Byw'n Dda

### Gwaith Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Eleni, fe wnaeth y Bartneriaeth ymgysylltu'n helaeth drwy'r prosiect Gwaith, Hamdden a Dysgu i ddeall beth mae pobl ag anableddau dysgu, pobl hŷn, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn ei werthfawrogi mewn cyfleoedd dydd. Gwybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgysylltu hwn fu sail gadarn i'r dystiolaeth, a arweiniodd at argymhellion ar gyfer ail-lunio model cyfleoedd dydd ym Mhowys.

Mae cynnig sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet bellach yn cael ei roi ar waith, gyda ffocws ar gyflwyno gwasanaethau cymunedol integredig. Y weledigaeth yw cefnogi unigolion i adeiladu bywydau iach a gwerth chweil drwy gyfleoedd cymdeithasol, gwaith a hamdden sy'n hybu lles, annibyniaeth a seibiant i ofalwyr.

Roedd y prif themâu ymgysylltu yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cysylltiadau cymdeithasol a chyfeillgarwch.
- Gwerth amgylcheddau diogel a dibynadwy i ofalwyr.
- Cydweithio cryf yn y gymuned.
- Heriau o ran ymwybyddiaeth am wasanaethau a chyfathrebu.
- Cytunwyd ar fodel diwygiedig sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnig tair haen o gymorth: Gwasanaethau Ataliol, Personol, ac Arbenigol. Mae'r dull hwn yn grymuso unigolion i fanteisio i'r eithaf ar eu hannibyniaeth ac yn sicrhau cymorth priodol wrth i'w hanghenion newid dros amser.

## Iechyd a Lles Emosiynol a Chorfforol

Nod y ffrwd waith hon o fewn y Bartneriaeth yw sicrhau arfer da drwy sicrhau bod cymunedau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol, a gwasanaethau statudol yn cydweithio i gynllunio, dylunio, datblygu, cyflwyno a gwerthuso mentrau iechyd a lles.

Trwy gydol blwyddyn gyntaf y prosiect, mae'r tîm wedi canolbwyntio ar sefydlu'r Grŵp Llywio ac ar sicrhau cynrychiolaeth rhanddeiliaid o bob sefydliad, adran a sector perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o wasanaethau a sefydliadau gan gynnwys PAVO, Llais, Credu, byrddau gwirfoddol, sefydliadau cymorth cymunedol, darparwyr gwybodaeth a chyngor, a llawer mwy.

**Bydd y *Daith Defnyddiwr sy'n* cael ei greu drwy'r prosiect yn helpu i nodi ble mae pobl yn mynd yn y gymuned i gael cymorth i wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder wrth gefnogi eu hanghenion lles eu hunain, yn ogystal â'u galluogi i gymryd rheolaeth dros eu systemau cymorth lles eu hunain.**

Mae datblygiadau allweddol wedi cynnwys:

- Cydlynu cyfeirlyfrau gwasanaethau i mewn i blatfform chwilio canolog.
- Awtomatiaeth i symleiddio diweddariadau a lleihau dyblygu.
- Codi ymwybyddiaeth drwy gyfarfodydd rhwydwaith lleol a digwyddiadau.

Datgelodd y canfyddiadau cychwynnol nad oedd canolfan wybodaeth ganolog ar gyfer dinasyddion Powys, ac mae'r prosiect yn mynd i'r afael â hyn drwy wella seilwaith digidol a chydweithio â rhanddeiliaid.

## Gofal Cymhleth yn Agosach at Gartref

Nod y ffrwd waith hon yw canolbwyntio ar anghenion pobl ag anableddau cymhleth, lluosog a dwys, y mae eu cynnig cymorth ym Mhowys yn gofyn am fwy o sylw ac am eu hatgyfnerthu.

**Eleni, cynhaliwyd adolygiad manwl o 100 o unigolion a nodwyd fel rhai ag anghenion cymhleth, er mwyn deall eu cymhlethdodau, eu cefndiroedd, eu hanghenion iechyd, llwybrau llety, a'u deilliannau.**

Datblygwyd ffurflen bwrpasol ar gyfer Llety â Chymorth o fewn System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i gefnogi'r broses o nodi anghenion yn gynnar, yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n pontio i wasanaethau i oedolion neu'n dychwelyd o leoliadau y tu allan i'r sir. Mae'r offeryn hwn ar hyn o bryd yn cael ei dreialu ac fe fydd yn cefnogi cynllunio strategol a gweithio integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Amlygodd yr adolygiad hefyd nifer sylweddol o unigolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) ac anghenion cymhleth, yn enwedig ymhlith y rheini rhwng 14–25 mlwydd oed. Dangosodd y data fod 104 o unigolion yn y grŵp oedran hwn gydag anghenion sy'n gysylltiedig ag ASD wedi'u hasesu, gyda'r crynodiad uchaf yn rhan ogleddol y sir.

Mae'r prif heriau a ddynodwyd yn cynnwys:

- Prinder darpariaeth addas a chynhwysol i unigolion ag ASD
- Gwasanaethau dydd presennol amhriodol oherwydd ffactorau amgylcheddol, lefelau amrywiol o angen, a gwahaniaethau oedran.
- Angen uwchsgilio darparwyr er mwyn cefnogi unigolion â phroffiliau ASD cymhleth yn well.
- Cefnogaeth anghyson i unigolion a'u teuluoedd ar draws y sir.

Mewn ymateb, mae grŵp amlasiantaethol yn datblygu grŵp cymorth ASD i gynnig cefnogaeth gan gyfoedion a meithrin gwytnwch cymunedol. Mae cynllunio ar y gweill i sefydlu adeilad a model cyflwyno mewn cydweithrediad â phartneriaid ym maes iechyd a'r trydydd sector.

# Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth

Mae model "busnes i bawb" ar waith ar gyfer yr holl waith Niwroamrywiaeth ym Mhowys. Mae'r grŵp strategol Niwroamrywiaeth yn gweithio i greu cysylltiadau ar draws pob partneriaeth, gyda mewnbwn gan Ddechrau'n Dda a Byw'n Dda. Mae hefyd wedi'i gysylltu'n agos â'r Grŵp Llywio Gofalwyr ac yn clywed lleisiau cymunedau drwy'r grwpiau hyn.

Mae staff gweithredol yn aelodau o'r grŵp strategol ac yn helpu i lywio gwneud penderfyniadau a chyfeiriad strategol. Ar hyn o bryd mae asedau cymunedol a darpariaethau'r trydydd sector yn cael eu mapio, gyda'r nod o lywio datblygiad gwasanaethau ac ymgysylltu yn y dyfodol.

Nododd ymarfer cwmpasu a gynhaliwyd yn 2024 fod angen gwneud mwy i wella capasiti'r gwasanaeth Niwroamrywiaeth Plant presennol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, yn ogystal â mynd i'r afael â bylchau sylweddol mewn cymorth ar gyfer cyflyrau megis Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a Syndrom Tourette.

Bydd gwaith i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn dilyn dull system gyfan, ac yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ar draws sectorau megis iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Bydd y gwelliannau'n cael eu cydgynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon.

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd dull newydd ac arloesol o drefnu clinigau ei dreialu o fewn y gwasanaeth Niwroamrywiaeth Plant. Y gobaith oedd y byddai dull mwy effeithlon o benodiadau ar y cyd yn gwella darparu'r gwasanaeth drwy gynnig asesiad a chanlyniad ar yr un diwrnod i'r mwyafrif o blant a phobl ifanc. Mae'r broses hon wedi'i chysylltu ag addysg a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU), sy'n cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Arweiniodd Cam 2 o'r gwerthusiad cenedlaethol ar y Cod Ymarfer Awtistiaeth at amlygu'r meysydd lle'r ydym yn rhagori ac fe nododd hefyd y meysydd lle mae angen gwelliant. Cafodd pobl â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon eu cyfweld gan Bobl a Gwaith fel rhan o Gam 2.

Mae codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn ystyriaeth allweddol i'r grŵp strategol Niwroamrywiaeth, gyda'r argymhelliad y dylai hyfforddiant fod yn orfodol ar draws pob cyfarwyddiaeth. Mae gwaith yn parhau gyda thimau ystadau i ddarparu mannau ac amgylcheddau "cyfeillgar i bobl niwroamrywiol". Bydd angen cydgynhyrchu'r mannau hyn gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon.

# HENEIDDIO’N DDA

Mae'r Bartneriaeth Heneiddio'n Dda yn gweithio i gefnogi pobl hŷn, gan gynnwys y rheini sydd ag eiddilwch ac eiddilwch eu cof, i fyw bywyd ffyniannus ac annibynnol, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y gymuned, lleihau unigedd ac unigrwydd, gan ddarparu gofal yn agosach at gartref trwy ddull ymyrraeth ac atal cynnar.





Lle na ellir diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion o fewn lleoliad cymunedol neu o fewn y cartref, mae'r pwyslais ar gynyddu capasiti a galluoedd i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi yn y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion gyda phwyslais ar ethos 'cartref yn gyntaf', gan sicrhau llif di-dor i gleifion ar draws y system iechyd a gofal tra'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gofal yn agosach at gartref.

## Uchafbwyntiau Heneiddio’n Dda

### Gwaith Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu a gweithredu Model Atal a Chydlynu Cymunedol ym Mhowys. Gweledigaeth a phwrpas y model hwn yw cefnogi dinasyddion Powys i fyw gartref gyda hyder, mewn iechyd a lles da, yn annibynnol ac yn ddiogel, i helpu eu hunain ac i gael mynediad at y cymorth a’r gofal cywir, yn y lle cywir ac ar yr amser cywir. Mae nifer o fentrau Heneiddio’n Dda yn allweddol i’r model hwn, gan gynnwys y gweithgareddau prosiect canlynol.

Mae Gwasanaeth Cymorth Cartref y bartneriaeth yn darparu cefnogaeth a chymorth ymarferol i unigolion yn eu bywyd o ddydd i ddydd i’w galluogi i fyw gartref gyda hyder ac mewn iechyd da. Mae’r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac nid yw’n destun prawf modd. Mae’r cymorth a gynigir yn cynnwys ymatebwyr llinell gofal cymunedol 24/7/365, gwiriadau lles rhagweithiol, a chefnogaeth a chymorth ymarferol.

**Eleni, darparwyd 12,298 o ymyriadau a drefnwyd gan y Gwasanaeth Cymorth Cartref, gan arbed £223,000 o gostau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol – roedd £80,000 o'r swm hwnnw'n ymwneud ag arbedion mewn gwasanaethau ambiwlans.**

Yn greiddiol i Wasanaeth y Cysylltwyr Cymunedol mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae'r gweithgarwch hwn yn mynd yn uniongyrchol i'r afael ag anghenion unigolion sy'n cyflwyno gydag amrywiaeth o faterion, drwy eu cysylltu â'r adnoddau cymunedol neu'r gwasanaethau statudol perthnasol. Eleni, mae dros 2,200 o bobl wedi defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys 64 o bobl a ddatgelodd eu bod yn byw gyda dementia, a 168 o bobl a ystyriodd eu hunain i fod yn ofalwyr di-dâl. Mynychodd y gwasanaeth 224 o fentrau cymunedol gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau megis sesiynau galw heibio, sesiynau Ffit i Ffermio, a sesiynau codi ymwybyddiaeth am Ddementia ar draws Powys, gan ddangos allgymorth rhagweithiol ac ymgysylltu o fewn cymunedau lleol.



**"Mae'r wybodaeth wedi bod o gymorth gwirioneddol, rwyf wedi cofrestru ar gyfer y clwb cinio, ac rwy'n trefnu i gadw lle ar y bws siopa – rwy'n teimlo'n llawer mwy annibynnol."**

Adborth am Wasanaeth y Cysylltwyr Cymunedol

## Dull Gofal Cymunedol Integredig

Nod y gweithgarwch o dan y ffrwd waith hon yw creu amgylchedd gofal di-dor, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n gwella ansawdd bywyd ac yn cefnogi annibyniaeth i bobl hŷn, gan sicrhau llif cleifion llyfn ar draws y system iechyd a gofal. Eleni, mae ymdrechion cydweithredol rhwng partneriaid wedi arwain at ganlyniadau mesuradwy ym maes darparu gofal cleifion mewnol, llif ysbyty, a chefnogaeth gymunedol. **Ymhlith y prif lwyddiannau mae lleihau oedi ar y llwybrau gofal, ehangu capasiti gofal cymunedol, a chynyddu'r gallu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty.** Wrth symud ymlaen, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar raddio modelau aseswyr dibynadwy, sefydlu'r tîm adsefydlu cymunedol, a chynyddu graddfa'r hwb llif integredig.

Mae prosiect cydweithredol ar y gweill i greu Dangosfwrdd Integredig ar gyfer Galw ac Addasrwydd yn y System Iechyd a Gofal. Nod hyn yw galluogi'r defnydd o ddeallusrwydd cywir a rennir i gefnogi penderfyniadau mwy gwybodus ac amserol ar draws y system gyfan.

Mae cam un o'r prosiect hwn – a oedd yn ceisio dod â gwybodaeth bresennol ynghyd mewn un dangosfwrdd – bellach wedi'i gwblhau.

Bu rhaglen waith *Moderneiddio Gofal Cartref* yn llwyddiant ysgubol, gan arwain at gynnydd mewn capasiti a lefel fwy cynaliadwy o ddarpariaeth ar draws Powys. Ymhlith y llwyddiannau nodedig mae:

- **Cynnydd sylweddol yn nifer y darparwyr gofal cartref**
- **Cynnydd mis ar ôl mis yn nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal cartref**
- **Mae cyfanswm yr oriau a ddarperir gan ddarparwyr yn y gwasanaeth gofal cartref wedi cynyddu'n raddol, gan leihau'r oriau gofal oedd yn aros i'w cyflawni o 39% dros y flwyddyn, o fewn yr un gyllideb**

Mae'r Cyllid Integreiddio Rhanbarthol (RIF) wedi darparu capasiti ychwanegol i ddatblygu'r seilwaith sy'n cefnogi modelau integredig a chydweithredol o ran asesiadau dibynadwy a broceriaeth integredig. Mae'r peilot o fodel aseswr dibynadwy mewn dau gartref gofal wedi dangos llwyddiant cychwynnol, gyda rhagor o ddysgu wedi'i gynllunio wrth i'r dulliau hyn barhau. Yn ogystal, mae'r dull broceriaeth integredig wedi'i dderbyn mewn egwyddor ac mae bellach wedi symud i'r cam gweithredu.

Mae *Gwefan Cynorthwywyr Personol (PA) Powys* hefyd wedi gweld twf sylweddol ac ymgysylltiad cynyddol. Nod y wefan yw gwella'r systemau sy'n helpu derbynwyr Taliadau Uniongyrchol ac unigolion sy'n aros am becynnau gofal i ddod o hyd i ofalwyr. Eleni, cafodd y wefan Cynorthwywyr Personol 1,764 o ddefnyddwyr a dros 19,000 o olygfeydd tudalen. Gall defnyddwyr weld proffiliau manwl o gynorthwywyr personol, gan gynnwys eu sgiliau, profiad ac argaeledd, gan ei gwneud yn haws dod o hyd i ofalwr addas.

**Mae hyn wedi ei gwneud hi'n haws i unigolion ddod o hyd i'r gofalwyr cywir a chysylltu â nhw, gan leihau cymhlethdod ac yn defnyddio technoleg i sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn gallu cyflawni mwy o reolaeth ac annibyniaeth.**

## Datblygiadau Llety

Eleni gwelwyd agor adeilad rhestredig hanesyddol Neuadd Maldwyn yn Y Trallwng, sydd wedi'i adfer a'i ehangu fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gofal Ychwanegol. Mae'r cynllun tai gofal ychwanegol hwn yn cynnwys 66 o fflatiau, gyda thîm gofal cartref ar y safle a staff gofal ar gael 24/7 ar gyfer argyfyngau. Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau ar y safle gan gynnwys bwyty, lolfa, ystafell aml-weithgaredd, ystafell ymolchi â chymorth, golchdy, ystafell i westeion, storfa sgwteri ar y safle a gerddi tirluniedig. Mae gwaith hefyd yn parhau ar ddau ddatblygiad gofal ychwanegol pellach yn Ystradgynlais ac Aberhonddu, sydd i'w cwblhau yn y blynyddoedd nesaf.





Eleni, mae adolygiad strategol cynhwysfawr wedi'i gynnal, gan gynnwys Datganiad Safle'r Farchnad sydd wedi'i ddiweddaru. Defnyddiwyd gwybodaeth fanwl a dadansoddiad o'r galw yn y dyfodol am lety gofal i bobl hŷn, ynghyd â'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol, fel sail dystiolaeth ar gyfer llywio'r adolygiad, yr opsiynau a'r argymhellion ar gyfer **Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn: Creu Dyfodol Gwell**.

Mae'r adolygiad yn nodi bod angen newidiadau sylweddol er mwyn cyrraedd nod Powys Gynaliadwy o ddod yn wasanaeth sy'n cefnogi Powys i fod yn gynaliadwy yn ariannol, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol; gan barhau i gadw pobl wrth galon ein gwaith, gyda'r weledigaeth o'u cefnogi i fyw'r bywyd gorau posibl, ac i ddod o hyd i'r atebion cywir ar yr adegau cywir yn eu bywydau. Nod y gwaith yw galluogi mynediad teg at wasanaethau o ansawdd uchel yn y prif ardaloedd lleol, gan gadw preswylwyr yn agosach at eu cartrefi, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'r gwaith o weithredu'r rhaglen hon wedi dechrau, gyda'r nod o archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu pum cartref cofrestredig deuol ar draws y sir, i ddarparu model hyblyg a chynaliadwy i fodloni anghenion gofal poblogaeth y dyfodol.

## Dementia

Prif ffocws y grŵp Ymgysylltu Cymunedol eleni fu datblygu'r rolau, Llyw-wyr Dementia ym Mhowys. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu cymunedol i gydgynhyrchu'r disgrifiad swydd ar gyfer y rôl, a chafwyd cefnogaeth a chydweithrediad gan bob partner gyda 218 o ymatebion i'r arolwg dros fis Awst a mis Medi.


Ar hyn o bryd, mae'r rolau hyn allan yn gyhoeddus i recriwtio ar eu cyfer, a disgwylir iddynt ddechrau yn haf 2025. Cynhaliwyd gweithdy yn ystod y gwanwyn gyda phartneriaid i drafod

sut y gallai'r gwasanaethau a'r llwybrau presennol gefnogi'r llyw-wyr unwaith y byddant yn eu swyddi.

Mae'r Tîm Gwasanaeth Asesu Cof (MAS) wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i leihau amseroedd aros ac i wella modelau gweithredu. Mae MAS Gogledd Powys wedi gweld gostyngiad yn yr amseroedd aros am ddiagnosis, ac mae de Powys bellach yn cynnal clinigau ychwanegol ar gyfer diagnosis.

Dechreuodd sesiynau therapi ysgogi gwybyddol yn Y Drenewydd, Llanidloes ac Ystradgynlais ac maent wedi cael eu derbyn yn dda gydag adborth cadarnhaol.
Mae pum aelod o staff yn y gwasanaeth wedi cwblhau'r cwrs diagnostig dementia, a fydd yn galluogi clinigau dan arweiniad ymarferwyr ac yn cefnogi gostwng amseroedd aros am ddiagnosis, sydd yn parhau i fod yn fater allweddol.

Mae'r grŵp Siarter Ysbyty wedi canolbwyntio ar greu amgylcheddau cyfeillgar i bobl sydd â dementia, gan arwain at arwyddion newydd ac addurno wardiau ar draws Powys.




Mae ystafelloedd dydd wedi'u trawsnewid gyda murluniau a chrochenwaith newydd gyda chlociau sy'n gyfeillgar i bobl â dementia wedi'u prynu hefyd. Mae gwaith o ran recriwtio gwirfoddolwyr yn parhau.

Yn olaf, mae'r grŵp dysgu a datblygu wedi canolbwyntio ar wneud hyfforddiant dementia yn orfodol ar draws wyth cyfarwyddiaeth, yn ogystal â datblygu eLyfr.

Mae’r eLyfr Dementia, a ddatblygwyd i gefnogi hyfforddiant staff mewn dementia, wedi’i ddylunio a’i brofi gan bum aelod o staff ers mis Awst 2024.




Cyflwynwyd y llyfr yn genedlaethol oherwydd diddordeb oddi wrth ranbarthau Byrddau Iechyd eraill i addasu’r eLyfr. Roedd ychydig o’r adborth o’r cyflwyniad yn cynnwys:

**“Gwaith anhygoel yn cynnwys eglurdeb ar fframwaith mor gymhleth.”**

Gofynnwyd i’r tîm wneud cyflwyniad mewn grŵp Dysgu a Datblygu cenedlaethol i gefnogi cyflwyno’r pecyn cymorth. Ac wrth edrych ymlaen, bydd y Grŵp Dysgu a Datblygu yn trafod datblygu fersiwn i’r cyhoedd gael mynediad ato.

# GWAITH TRAWSBYNCIOL

## Gofalwyr

Darperir gwasanaeth gofalwyr y bartneriaeth gan Credu, elusen gofrestredig i ofalwyr ym Mhowys. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Credu wedi cefnogi **2572** o ofalwyr ar draws y sir drwy 121 o grwpiau cefnogaeth ymyriadau a grwpiau cyfoedion amrywiol. Mae'n parhau i ddarparu cymorth o ansawdd uchel sy'n galluogi gofalwyr i gael gofod i deimlo fel bod pobl yn wirioneddol gwrando arnynt ac i ddeall beth sy'n eu cefnogi hwy gyda'u deilliant personol eu hunain, i deimlo'n fwy cysylltiedig ag eraill, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae nifer y Gofalwyr sydd wedi derbyn cefnogaeth oddi wrth y contract craidd wedi cynyddu gan 1093 dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Credu wedi datblygu offer i gyrraedd mwy o ofalwyr; eleni, maent wedi dynodi 930 o ofalwyr newydd nad oeddent yn hysbys iddynt o'r blaen.

Mae cyswllt cyfryngau cymdeithasol ac e-bost Credu wedi cyrraedd dros **140,000** o bobl eleni, gan godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i Ofalwyr. Mae eu prosiect Codi Ymwybyddiaeth hefyd wedi cefnogi sefydliadau i helpu i adnabod a chefnogi Gofalwyr.

Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Chwefror 2025 i dynnu sylw at y bobl hynny sy'n gofalu ac yn rhoi cymorth i ofalwyr. Gofynnwyd i bobl enwebu rhywun yr oeddent yn teimlo oedd wedi'u cefnogi nhw, gyda 70 o ofalwyr a'u teuluoedd yn bresennol.

Mae Credu yn cynnal grwpiau wythnosol i Oedolion sy'n Ofalwyr yn Y Trallwng ac yn Ystradgynlais, yn ogystal â grwpiau misol i Oedolion sy'n Ofalwyr yn Y Trallwng, Llandinam, Aberhonddu, Y Gelli Gandryll, Crughywel, Llandrindod, Dwyrain Maesyfed, Y Drenewydd, Machynlleth ac Ystradgynlais.




**Ffotograffau yw'r rhain o grŵp Oedolion sy'n Gofalu Llandrindod a grŵp Rhieni sy'n Gofalu Llanandras.*

Roedd themâu'r sgyrsiau yn y grŵp Rhieni Gofalwyr yn ymwneud â'r pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd i blant Niwroamrywiol, Cynlluniau Datblygu Unigol, a phwy i siarad â nhw os nad ydynt yn teimlo bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu.

Bu sgyrsiau hefyd am drafnidiaeth i'r ysgol y tu allan i'r dalgylch ac am y newidiadau sy'n digwydd yn ymwneud â hyn.

Dywedodd gofalwr oedd yn newydd i'r grŵp rhieni gofalwyr,

***'"Roedd hi mor braf bod o gwmpas bwrdd gyda phobl sy'n deall yn syth. Fe wnaeth i mi deimlo'n llai unig a diflannodd fy ngorlethdod oherwydd roeddwn i'n teimlo bod eraill yn yr un sefyllfa, a chefais hwyl a chyfle i anghofio popeth am y tro."***

Mae Credu yn cynnal clybiau misol i Ofalwyr Ifanc yng nghanol Powys ac yn Aberhonddu, gyda thua 22 o Ofalwyr Ifanc yn mynychu ar gyfartaledd. Cynhelir sesiynau ysgol wythnosol yn Y Drenewydd, Aberhonddu, Crughywel ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed, yn ogystal ag yn ysgolion cynradd Y Drenewydd a'r Trallwng. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth un i un a gwaith mewn grwpiau bach. Cynhelir sesiynau ysgol bob pythefnos ar ddau gampws sef Ysgol Calon Cymru ac yn Ysgol Maesydderwen yn Ystradgynlais.

Mae Credu wedi mynd â Gofalwyr Ifanc i sglefrio iâ, i Bantomeim ac i gynhyrchiad theatr lleol. Maent hefyd wedi trefnu cyrsiau preswyl i Ofalwyr Ifanc sydd â rôl gofalu dwys, rhwng 8 ac 18 mlwydd oed. Ariannwyd llawer o'r gweithgarwch hwn gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Seibiannau Byrion y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) a chyllid oddi wrth y Rotari lleol. Cefnogwyd 103 o Ofalwyr Ifanc drwy'r digwyddiadau hyn.











Cynhaliwyd Grŵp Ymgynghorol Cymru (WAG) gan Credu ym mis Chwefror yn Y Trallwng. Cyflwynodd un ar bymtheg o Oedolion sy'n Gofalu i'r grŵp. Cafodd aelodau'r WAG eu hysbrydoli gan Credu a'r Gofalwyr, ac mae ganddynt bellach ddiddordeb mewn cwblhau'r hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol.

Gallwch ddod o hyd i straeon ar sianel You Tube Gofalwyr Credu.

## Y Gymraeg

Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn helpu sefydliadau gyda'u defnydd o'r Gymraeg fel y dynodir o fewn polisi 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig help i sefydliadau'r trydydd sector gyda'r Cynnig Rhagweithiol. Mae'r prosiect yn cynnig pecyn cefnogaeth sy'n cynnwys darparu costau cyfieithu untro, helpu sefydliadau i ddatblygu cynllun gweithredu'r Gymraeg, ynghyd â chyflwyno hyfforddiant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)

Eleni, mae adnoddau newydd y Cynnig Rhagweithiol, gan gynnwys cardiau fflach wedi bod yn boblogaidd iawn er mwyn cefnogi sefydliadau. Yn ogystal, mae sesiwn newydd wedi'i chreu i gynyddu hyder staff wrth geisio darparu'r Cynnig Rhagweithiol. Mae'r sesiwn hon yn galluogi'r Swyddog Cynnig Rhagweithiol i gyfarfod â staff cartrefi gofal i ymarfer defnyddio'r adnoddau a brawddegau sylfaenol yn y Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r prosiect wedi helpu sefydliadau i ddeall pwysigrwydd y Cynnig Rhagweithiol ac i ennill hyder wrth gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Yn ychwanegol at hyn, crëwyd fideo sy'n cyfleu'r effaith bositif mae'r gefnogaeth i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol wedi'i gael ar sefydliadau. Gallwch weld y fideo ar ffeiliau gyriant Google PAVO



Cafwyd adborth positif ar y gefnogaeth a'r sesiynau a ddarperir. Mae enghreifftiau fel a ganlyn:

**"Rwyf wedi gweld y broses gyfan yn ddefnyddiol iawn, rydym wedi cael awgrymiadau a chyngor, ynghyd ag enghreifftiau o'r hyn sy'n bosibl i'n helpu i lunio'r cynllun gweithredu. Rydym wedi cael gwrandawiad, ac mae ein syniadau wedi'u troi'n gamau gweithredu sy'n adlewyrchu'r hyn rydyn ni'n teimlo sy'n bosibl i ni ei gyflawni."** *Adborth o sesiwn y Cynnig Gweithgar*

## Gwella'r Daith Ganser

Wrth i raglen Gwella'r Daith Ganser (ICJ) ym Mhowys symud i ail gam y rhaglen, nodwyd yr angen am fynediad symlach drwy un pwynt mynediad at gymorth. Cafodd y rôl, Cysylltydd Cymunedol Canser, sydd wedi'i hariannu gan Macmillan ac wedi'i chynnal gan PAVO, ei chydnabod fel y pwynt mynediad mwyaf addas.

Mae'r rhaglen ICJ am sicrhau bod unrhyw un sy'n byw gyda chanser, neu sydd wedi'i effeithio gan ganser ym Mhowys, yn cael y cyfle i gael sgwrs gefnogol ar y thema "beth sy'n

bwysig" gyda Chysylltydd Cymunedol Canser lleol. Mae'r Cysylltydd Canser yn cynnig cyngor, yn rhoi gwybodaeth ac yn cyfeirio neu'n arwain unigolion at y cymorth lleol mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r dull hwn wedi profi'n effeithiol, gyda chyfeiriadau wedi dyblu rhwng tri mis cyntaf y flwyddyn a'r tri mis olaf. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn sgyrsiau cefnogol, asesiadau anghenion holistig a chynlluniau gofal. Er mwyn cefnogi gweithredu'r Pwynt Mynediad Unigol, datblygwyd deunyddiau hyrwyddo newydd a'u dosbarthu'n eang ar draws Gofal Eilaidd, Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol, Hamdden, y Trydydd Sector a chymunedau lleol.




Mae cydweithio a chydgynhyrchu yn parhau i fod yn ganolog i'r rhaglen ICJ. Mae'r fenter yn dod ag ystod eang o randdeiliaid ynghyd, gan gynnwys darparwyr gofal iechyd, yr awdurdod lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ac - yn bwysicaf oll - lleisiau'r rheini sy'n byw gyda chanser neu wedi'u heffeithio ganddo. Mae'r dull cynhwysol hwn yn sicrhau bod y rhaglen yn ymateb i anghenion y gymuned ac yn darparu cymorth holistig.

Ymhlith partneriaid ICJ mae CYMORTH, y Tîm Cyngor Ariannol, Ymddiriedolaeth Bracken, Credu, y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff, Lingen Davies, iCan, ac eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn hanfodol ar gyfer darparu cymorth cynhwysfawr, lleol led led Powys. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Lingen Davies wedi hyfforddi ac wedi cefnogi 323 o Bencampwyr Canser ym Mhowys yn eu prosiect sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diagnosis cynnar. Dysgwch fwy yma: [www.cancerchampions.co.uk](http://www.cancerchampions.co.uk)

Drwy gydol y flwyddyn, bu'r tîm ICJ yn cymryd rhan mewn sawl digwyddiad i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael, gan gynnwys:

- Digwyddiad Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar Roi'r Gorau i Ysmygu a Phencampwyr Canser
- Digwyddiadau 'Lleoedd Iach' yn Y Trallwng, Llandrindod ac Ystradgynlais
- Digwyddiad Macmillan ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol yng Nghymru

• Cynhadledd Iechyd a Gofal Gwledig
• Ffair Gymunedol Llanfair-ym-Muallt

Yn ogystal, mae’r tîm ICJ wedi sefydlu partneriaethau newydd ac wedi cefnogi cyflwyno’r fenter *5k Your Way* mewn tri lleoliad Parkrun ar draws Powys, gan hyrwyddo gweithgarwch corfforol ac ymgysylltiad cymunedol pellach i’r rheini sydd wedi’u heffeithio gan ganser.

Rhaglen Gwella’r Daith Canser ym Mhowys ... Improving the Cancer Journey in Powys programme...

## Canolfan Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol

Mae’r Ganolfan Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol (RIC) ym Mhowys wedi bod yn cefnogi ac yn cydlynu prosiectau ymchwil, arloesedd a gwelliant dros y flwyddyn ddiwethaf.

### Cefnogi Cleifion

Mae’r tîm yn parhau i gefnogi datblygiad ap ffonau clyfar sydd wedi’i gynllunio i asesu craffter gweledol mewn cleifion a dderbyniodd ddiagnosis o Ddirywiad Macwlaidd Gwlyb sy’n Gysylltiedig ag Oedran (Wet AMD) neu sy’n derbyn triniaeth ar ei gyfer. Yn ystod 2024-25, lansiwyd yr ap yn llwyddiannus yn Ysbytai Aberhonddu a Llandrindod, gyda chyfradd ddefnyddio gyson a oedd yn galluogi cleifion i ddefnyddio’r ap yn eu cartrefi.



### Lansio Ap E-Ganiatâd Iwneiddiadau Ysgolion



Rhoddodd yr Hwb RIC gefnogaeth i’r Gwasanaeth Nyrsys Ysgol wrth ddatblygu ap y gellir ei ddefnyddio gan rieni a gofalwyr i roi eu caniatâd ar gyfer pob brechiad ysgol trwy blatfform electronig hawdd ei ddefnyddio, diogel a chyfleus gan ddefnyddio ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur. Mae’r ap hwn wedi disodli’r broses o anfon ffurflenni caniatâd papur adref o’r ysgol gyda disgyblion, gan ofyn i rieni neu ofalwyr eu llofnodi a’u dychwelyd.

## Sioeau Teithiol



Yn ystod 2024-25, mynychodd Hwb RIC Powys ddeuddeg Sioe Deithiol Lles Staff, i siarad â staff am ymchwil, arloesedd a gwella. Yn gyfan gwbl, mynychodd 356 o aelodau staff ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y sioeau teithiol.

Os hoffech wybod mwy am y gwaith sy’n cael ei wneud gan Hwb RIC, neu sut y gall Hwb RIC eich cefnogi yn eich taith ymchwil, arloesedd neu wella, anfonwch e-bost i Bright.IdeasPowys@wales.nhs.uk


## Rhaglen Llesiant Gogledd Powys

Sefydlwyd Rhaglen Llesiant Gogledd Powys fel blaenoriaeth allweddol i gyflawni Strategaeth Iechyd a Gofal ar y cyd y sir, gyda’r weledigaeth o “asesu a chyflwyno model integredig newydd yng ngogledd Powys, ac i gefnogi dysgu a throsglwyddo effeithiol ar draws Powys.”

Bydd y rhaglen hon yn mynd i’r afael â’r prif achosion o salwch a lles gwael drwy bartneriaeth rhwng gweithwyr proffesiynol a chymunedau, gan gynnig cymorth cynnar a darpariaeth iechyd sy’n defnyddio technoleg i sicrhau bod trigolion yn cael gwasanaeth mwy di-dor pan fydd ei angen arnynt.

Un elfen allweddol o’r rhaglen hon yw’r campws iechyd a lles amlasiantaethol arfaethedig yng nghanol y Drenewydd.

Er mwyn sicrhau rhaglen y gellir ei chyflawni ac sy’n fforddiadwy yng nghyd-destun cyllideb cyfalaf cenedlaethol ehangach Cymru, mae’r rhaglen wedi datblygu dull cam wrth gam fel y crynhoir isod:




***Capsiwn: Mae'r ffeithlun uchod yn dangos y cynigion cynnar ar gyfer Cam Un – bydd y rhain yn cael eu profi gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach dros haf 2025.***

Mae cyflwyno'r rhaglen wedi'i oedi dros dro wrth ddisgwyl penderfyniad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyflwyno Achos Amlinellol Strategol. Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r cyllid drwy Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar y cyd ar gyfer Cam Un y campws arfaethedig.

Mae gwaith bellach ar fynd i gytuno ar y llinell amser ar gyfer datblygu'r Achos hwn, a fyddai, os caiff ei gymeradwyo, yn darparu'r cyllid cyfalaf i alluogi agor Cam Un o'r campws erbyn 2028. Gallai hyn gynnwys amrywiaeth o wasanaethau iechyd a lles ar gyfer cymunedau gogledd Powys.

Mae gwaith yn digwydd gyda chydweithwyr clinigol a phroffesiynol i ddatblygu'r amserlen ar gyfer y llety i'r gwasanaethau arfaethedig hyn o ran Cam Un; bydd y rhain yn cael eu profi gyda'r cyhoedd yn ystod haf 2025.

Bydd datblygu cynigion ar gyfer Cam Dau a Cham Tri yn dilyn. Bydd y camau hyn yn cynnwys cyfleusterau newydd yn lle ysbyty'r dref yn ogystal â chyflwyno ystod estynedig o wasanaethau diagnostig a thriniaethau.

Mae tîm y rhaglen hefyd yn ystyried darparu llety myfyrwyr a thai â chymorth yn Y Drenewydd, er na fyddai'r cyfleusterau hyn yn rhan o ddatblygiad y campws ei hunan.

**Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Rhaglen ar [www.powyswellbeing.wales](http://www.powyswellbeing.wales) neu trwy [www.haveyoursaypowys.wales/hub-page/north-powys-wellbeing](http://www.haveyoursaypowys.wales/hub-page/north-powys-wellbeing)**

## Dyfodol y Gweithlu

**Rhaglen Dyfodol y Gweithlu: Meithrin Gweithlu Gwydn, Medrus a Thosturiol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhowys**

Mae Rhaglen Dyfodol y Gweithlu yn cynrychioli dull integredig a blaengar o ddatblygu gyrfaoedd, arweinyddiaeth a lles y gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys. Trwy gasgliad o brosiectau uchelgeisiol ac effaith uchel, mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â heriau cyfredol y gweithlu, tra'n buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol.

Mae pob un o'r prosiectau canlynol o dan ymbarél Dyfodol y Gweithlu yn cyfrannu'n unigryw at drawsnewid y system, gan feithrin gallu a chynyddu capasiti ar draws sectorau.

### Cynllun Menter Addysg Gyrfaoedd yr Academi (ACEES)

Nod y fenter hon yw addysgu ac ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfaoedd ym maes iechyd, gofal a gofal cymdeithasol drwy ddysgu trochiadol, dwyieithog a rhyngweithiol.

### Uchafbwyntiau'r Rhaglen i'r Ysgol Gyfan:

- Cafodd ei ddarparu i 11 allan o 13 ysgol uwchradd ym Mhowys, ynghyd ag allgymorth i Golegau NPTC ac un ysgol cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i ffin y sir. **Cyfanswm cyrhaeddiad o 5,507 o ddysgwyr.**
- Defnyddiwyd **astudiaeth achos dementia** yn 2024/25, felly mae gan bob dysgwr ddealltwriaeth well o sut i gefnogi person â dementia yn eu cymuned.
- Dangosodd **25%** ddiddordeb mewn gyrfaoedd yn y sector.
- Byddai **33%** yn ystyried cymwysterau perthnasol.
- Roedd mwy na **50%+** o'r dysgwyr wedi mynegi tebygolrwydd o ddilyn gyrfa ym maes gofal - **dyma ddwbl y ffigwr ar gyfer y flwyddyn flaenorol.**

## Uchafbwyntiau'r Rhaglen Uwch:

- **Cyrhaeddwyd 152 o fyfyrwyr chweched Dosbarth a myfyrwyr NPTC** gyda hyfforddiant ymarferol uwch, yn cynnwys sgiliau ymarferol, sefyllfaoedd efelychiadol, ac ymwybyddiaeth o ddementia, gan gynnwys hyfforddiant ardystiedig fel Cyfaill Dementia.
- Roedd gwyliau gyrfaoedd **wedi cefnogi ymgysylltu dyfnach** gyda chyfres eang o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol o fewn Powys.
- Bu **cynnydd o 47% mewn cofrestriadau Blwyddyn 12** ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Gwyddor Feddygol at 2024/25 yn sgil y flwyddyn gyntaf o ddarpariaeth ACEES ar raddfa lawn i 10 ysgol uwchradd yn 2023/24.

## Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer arweinyddiaeth

Mae'r ffocws ar ddatblygu arweinwyr galluog a thosturiol ar bob lefel o fewn iechyd a gofal cymdeithasol ym Mhowys. Mae'r prosiect yn cynnwys modiwlau arweinyddiaeth unigol, rhaglenni hyfforddi, a Rhaglen Drochi mewn Arweinyddiaeth Glinigol (CLIP).





**Uchafbwyntiau:**

- **598 o gyfranogwyr** wedi cwblhau'r sesiwn "Cyflwyniad i Ymddygiadau Arweinyddiaeth Dosturiol" ers Ionawr 2023.
- **95 o fynychwyr** ar draws modiwlau datblygu arweinyddiaeth.
- **30+ o sesiynau coetsio un i un** wedi'u cyflwyno.
- Mynychodd **64 o unigolion** y Rhaglen Drochi mewn Arweinyddiaeth Glinigol (CLIP), gyda **92% yn nodi effaith bositif** ar eu sgiliau arweinyddiaeth

Mae CLIP yn parhau i esblygu i ddiwallu anghenion ehangach, gyda newidiadau ar y gweill i'w addasu ar gyfer gweithlu gofal cymdeithasol Cyngor Sir Powys.





## Lles ac Ymgysylltu

Mae lles y gweithlu yn parhau i fod yn ganolog i gynaliadwyedd y system. Mae ystod o ymyriadau ar gael ar gyfer grwpiau, timau ac unigolion un i un, gan gynnwys:

- **50 o reolwyr** wedi cwblhau'r modiwl Lles ac Ymgysylltu.
- **Sesiynau wedi'u teilwra** ar gyfer sefydliadau megis Credu, Cyngor ar Bopeth, a gofalwyr di-dâl.
- Cefnogaeth lles parhaus ar gael i staff drwy alwadau Teams neu wyneb yn wyneb.

Mae'r sesiynau'n defnyddio offer megis *Lego Serious Play*, hyfforddiant awyr agored ac ymarferion myfyrio strwythuredig i gefnogi staff ar draws amrywiaeth o rolau a sectorau.

## Cynefino ar y Cyd

Mae Cynefino ar y Cyd yn sicrhau bod staff newydd yn deall gwerthoedd, disgwyliadau a dulliau gweithio a rennir, gan adeiladu gweithlu gofal unedig o'r cychwyn cyntaf.

**Nodweddion:**

- Cyflwyno'r cwrs yn rheolaidd yn unol â'r galw.
- Strwythur diwygiedig sy'n caniatáu i gyfranogwyr gwblhau asesiadau o fewn y rhaglen 6-diwrnod, gan arwain at gyfradd cwblhau uwch.
- Cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn anelu at ymestyn y cynefino i dimau gofal ehangach drwy fodel sy'n seiliedig ar bartneriaeth.

## Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli yn bwynt mynediad allweddol i yrfaoedd ym maes iechyd a gofal, yn ogystal â bod o fudd i'r gwirfoddolwr a'u cymuned.

**Uchafbwyntiau:**

- Cytunwyd ar Becyn Cymorth i Wirfoddolwyr ym mis Ionawr 2025, sydd bellach yn mynd i mewn i'r cam cyflwyno.
- Cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc wedi'u cynnwys ym mhob sesiwn ACEES ar gyfer Blwyddyn 9 ac uwch. Mae straeon bywyd go iawn a llwybrau gwirfoddoli'n cael eu hyrwyddo.
- Cydweithio â PAVO i godi ymwybyddiaeth a chyfeirio at rolau lleol.

Mae'r prosiect hwn yn alinio gwirfoddoli â datblygiad y gweithlu, gan wella cyfranogiad dinesig a pharodrwydd ar gyfer gyrfa gynnar.

## Archwilio Gofalu

Mae'r rhaglen beilot hon yn cefnogi gofalwyr di-dâl i ddeall eu rolau drwy hunan fyfyrio, lles a sgiliau arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar ymddygiadau Arweinyddiaeth Dosturiol.

**Strwythur y Rhaglen Beilot:**

- Pedair thema thematig, yn ymdrin â:
    - Datblygu perthnasoedd cefnogol o amgylch yr unigolyn sy'n derbyn gofal.
    - Archwilio lles personol, ffiniau a chydbwysedd.
    - Defnyddio technegau hyfforddi i wella cyfathrebu a gwneud penderfyniadau.
    - Dod â phopeth at ei gilydd i wella canlyniadau ar draws rhwydweithiau gofal.

Mae'r adborth cychwynnol yn hynod gadarnhaol, gyda gofalwyr yn adrodd gwell hyder, eglurder a chefnogaeth yn eu rolau. Cynhelir carfan arall yn 2025/26 a defnyddir data gwerthuso i lywio'r camau nesaf.

## Cyfranogiad

Mae llawer o'r gwaith sy'n ymwneud â Chyfranogiad wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad, ond mae'n werth amlygu rhai darnau allweddol o waith a'n dull gweithredu yma. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys dinasyddion Powys ar draws partneriaid y RPB, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, a chynyddu'r effaith a'r llais i bobl.

## Cynrychiolwyr Dinasyddion a Gofalwyr

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn falch o'i waith wrth gefnogi dinasyddion a gofalwyr i gymryd rhan yng ngwaith y bartneriaeth. Mae gan y Bwrdd ddau gynrychiolydd dinasyddion a dau gynrychiolydd gofalwyr sy'n aelodau llawn o'r RPB ac yn gyfartal â'r holl aelodau eraill.

**Mae cyfranogiad y cynrychiolwyr hyn nid yn unig yn llywio ac yn siapio penderfyniadau, ond mae hefyd yn parhau i ddarparu ffordd well o adnabod a mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig i bobl.**

Mae ystod amrywiol o bobl yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd, ac maent yn gwneud hyn drwy roi sylwadau ar waith arfaethedig, helpu i recriwtio rolau allweddol, ac yn cyfrannu at wahanol brosesau a gweithdrefnau. Dros y flwyddyn, bu cynrychiolwyr dinasyddion/gofalwyr yn cymryd rhan mewn 40 o gyfarfodydd y RPB a chyfarfodydd y Grŵp Llywio Gofalwyr.

Diolch enfawr i'r aelodau Gofalwyr a Dinasyddion am eu gwaith gwerthfawr ar y bwrdd a'r tu hwnt. Ymddiswyddodd Helen Wear eleni ar ôl tair blynedd fel aelod gofalwr, gan roi'n hael o'i hamser, ei hegni a'i hangerdd i wella pethau i eraill. Rydym hefyd yn ffodus o allu croesawu ein haelod diweddaraf, Heather Bennett Doy-Jones.

Mae'r aelodau wedi gallu rhannu eu profiadau a dylanwadu ar waith y bwrdd. Maent hefyd wedi cymryd rhan yn weithredol mewn gweithdai, megis cynhadledd RPB Cymru Gyfan ar Ddatblygu Gallu Cymunedol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.



Heather | Hayley | Nick | Jean

## Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad

Sefydlwyd y Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad i sicrhau fod y ffordd y byddwn yn ymgysylltu gyda dinasyddion Powys ar draws y bartneriaeth yn gydgysylltiedig ac yn galluogi dinasyddion i gymryd rhan mewn ffordd fwy ystyrlon wrth siapio polisi, dylunio a chyflwyno'r gwasanaeth. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol i rannu gwybodaeth ar weithgareddau, arfer da a hyfforddiant ymgysylltu.

Mae'r rhwydwaith wedi dechrau atgyfnerthu arferion cydgynhyrchiant trwy ddatblygu a gyrru cyfres o gamau gweithredu i wella arferion cyfranogiad. Cynhaliwyd y gwaith hwn ar y cyd gyda Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Powys.

## Cydgynhyrchiant

Datblygu diffiniad a rennir o'r hyn a olygwn ym Mhowys gyda chydgynhyrchiant fu'r cam cyntaf, ynghyd â'r egwyddorion arweiniol a fydd yn cefnogi grwpiau, gwasanaethau a sefydliadau i wella eu taith gyd-gynhyrchu.



Mae rhai enghreifftiau da o Gydgynhyrchiant yn gweithio ar draws y bartneriaeth — gwneud 'gyda' chymunedau lleol a pheidio â gwneud 'i' sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn. Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn dysgu o'r enghreifftiau da hyn ac yn cefnogi dull mwy cyson o gynnwys dinasyddion. Adeiladu perthnasoedd mwy cyfartal o bŵer cyffredin a rhannu cyfrifoldeb gyda'n cymunedau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth a pharch.



Roedd gweithdai i ddatblygu Traciwr y Daith Gydgynyhyrchiant ym Mhowys wedi dod â grŵp o bobl ynghyd gyda phrofiadau gwahanol o lygad y ffynnon a hefyd gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r bwrdd iechyd, gwasanaethau'r cyngor a chynrychiolwyr y trydydd sector.

Mae'r sesiynau hyn, ynghyd ag adborth ehangach o amrywiaeth o fforymau a rhwydweithiau, wedi ein galluogi i ddatblygu, profi a mireinio Traciwr y Daith Gydgynhyrchu ym Mhowys. Y cam nesaf yw ei wneud ar gael led led y sir.

Mae ymgysylltu ehangach gyda phobl yn eithriadol o bwysig ac mae amrywiol ffyrdd gan bartneriaethau ac is-grwpiau lle y gallant glywed llais y bobl i helpu siapio penderfyniadau. Mae Bwrdd Dechrau'n Dda Iau gan y prosiect Dechrau'n Dda sy'n cynnwys pobl ifanc a all drafod y prif faterion a bwydo'r rhain i mewn i waith y bartneriaeth.

Eleni cynhyrchodd Rhwydwaith Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Powys (PEIN) eu hadroddiad cyntaf ar Fewnwelediad Pobl a Chymunedau Powys - adroddiad bob chwech mis sy'n casglu mewnwelediad ar ymgysylltu parhaus rhwng dinasyddion a chymunedau gyda sefydliadau cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r adroddiad yn casglu'r deallusrwydd a dderbyniwyd ac yn amlygu themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg, er mwyn eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Eleni, roedd Rhwydwaith Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Powys wedi derbyn aelodaeth sefydliadol o [Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru](). Mae 15 o Hyrwyddwyr Cydgynhyrchu eisoes wedi'u nodi ac wedi dechrau derbyn hyfforddiant a chefnogaeth bellach i sefydlu dulliau arfer gorau yn eu gwaith.

## Llais, Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Llais, Corff Statudol Llais Dinasyddion Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn cysylltu â Rhwydwaith Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Powys, ac mae'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol ar gyfer Powys yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

Mae'r RPB a'i gyrff sy'n aelodau wedi parhau i weithio gyda Llais yn ystod y flwyddyn wrth iddynt sefydlu eu trefniadau gwaith newydd, ac mae hyn wedi cynnwys Llais yn mynychu Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad Powys i helpu cyflwyno llais y dinesydd i galon ein cynlluniau i atgyfnerthu ymgysylltu a chyfranogiad yn y sir.

Bu cynrychiolydd Llais yn cymryd rhan mewn 13 o weithdai ymgysylltu Powys Gynaliadwy <https://en.powys.gov.uk/sustainablepowys> a 'Gwell Gyda'n Gilydd <https://www.haveyoursaypowys.wales/better-together-engagement> i gyd ym mis Chwefror a Mawrth 2023.

Mae Llais ym Mhowys wedi bod yn cynnal rhaglen beilot o ddull ardal leol o ran ymgysylltu i ddeall profiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn rhannu'r adborth hwn gyda sefydliadau partner lleol, ac i ddynodi camau gweithredu a gwelliannau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae hyn yn canolbwyntio ar bob un o'r 13 ardal leol a fabwysiadwyd gan y RPB a'r PSB fel sail ar gyfer ein mewnwelediad, ymgysylltu, cynllunio a chyflwyno gwasanaeth.

Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn ar gael oddi ar wefan Llais:

- Llanidloes: Llais Powys – Crynodeb Gweithredol – Ymgysylltu â Llanidloes| Llais (llaiswales.org)
- Llanfair-ym-Muallt & Llanwrtyd: Adroddiad ar yr Hyn a Glywsom o Ymgysylltu â Llanfair-ym-Muallt | Llais (llaiswales.org)
- Y Trallwng a Threfaldwyn: Llais Powys – Adroddiad ar yr Hyn a Glywsom yn Ardal Leol Y Trallwng a Threfaldwyn | Llais (llaiswales.org)


## Dechrau'n Dda Iau




Grŵp o bobl ifanc 11-17 mlwydd oed yw Bwrdd Dechrau'n Dda Iau Powys sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n wynebu plant a phobl ifanc ar draws y Sir.

**"Trwy siarad â'n ffrindiau a'n cyfoedion, rydyn ni'n dod i wybod pa faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac yn gweithio ar atebion i sicrhau bod pawb yn gallu bod yn iach ac yn hapus. Rydyn ni hefyd yn cydweithio â Bwrdd Partneriaeth Dechrau'n Dda i helpu i gynllunio gwasanaethau a phrosiectau sy'n diwallu anghenion pobl ifanc. Rydyn ni hefyd yn ymgymryd â'r prosiectau ein hunain i wneud newidiadau yn ein cymuned."**

Mae prif brosiectau eleni wedi'u hamlinellu isod:




**Mae'r Addewid Partneriaeth** wedi bod yn ffocws allweddol i'r grŵp eleni. Mae'r ddogfen hon, a ddatblygwyd gan y JSWB, yn pwysleisio'r angen i roi anghenion pobl ifanc yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau ac i sicrhau bod eu lleisiau wrth galon y penderfyniadau hynny. Mae'r Bwrdd wedi rhannu'r addewid hwn gyda sefydliadau sydd â diddordeb mewn cydweithio ac yn annog pob grŵp sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w fabwysiadu. Anogir grwpiau eraill o blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r addewid hwn hefyd, gan feithrin dull unedig o gefnogi cyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc ym Mhowys.

**Prosiect Mannau Diogel:** Bu'r JSWB yn gweithio'n ddiwyd i sefydlu'r Caffi Ieuenctid yn Y Drenewydd er mwyn darparu man diogel i bobl ifanc, gan gynnig diodydd am ddim, bwyd fforddiadwy, ac ardal dawel ar gyfer gwaith cartref neu adolygu. Nod y prosiect oedd creu hafan i gymdeithasu'n ddiogel, gyda mynediad at gymorth os bydd ei angen. Yn ddiweddar, sicrhaodd y tîm £20,000 o gyllid y loteri i ehangu'r gwasanaeth a chynnig darpariaeth fwy rheolaidd.

Maent yn parhau i ganolbwyntio ar greu mannau diogel i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd wedi profi trawma. Eleni, byddant yn cydweithio â sawl sefydliad i nodi'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu man diogel, ac maent yn bwriadu ymgysylltu â phobl ifanc ar draws y sir i ddeall eu hanghenion a sicrhau bod mannau diogel ar gael i blant ym mhob lleoliad.

**Ffyrdd Iach o Fyw:** Mae aelodau'n parhau i hyrwyddo manteision aros yn actif ar gyfer lles emosiynol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Datblygu Chwaraeon i newid agweddau drwy roi mwy o bwyslais ar ffitrwydd. Maent hefyd yn annog mwy o gefnogaeth i weithgarwch corfforol y tu hwnt i Flwyddyn 11 mewn ysgolion, ac yn sicrhau bod Llysgenhadon Chwaraeon ac arweinwyr grwpiau chwaraeon wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl, a bod ffitrwydd yn fforddiadwy.

Er mwyn cynrychioli pob unigolyn ifanc ym Mhowys, maent hefyd yn recriwtio aelodau newydd ac yn creu ffurflen adborth i bobl ifanc adrodd pryderon neu rannu syniadau ar gyfer prosiectau. Os hoffech siarad â'r grŵp neu ddod yn aelod, cysylltwch â jswb@powys.gov.uk.

## Fforwm Byw'n Dda

Mae fforwm Byw'n Dda wedi gweld cynnydd pellach mewn aelodaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chynrychiolwyr o ystod ehangach o sefydliadau, o'r sector gwirfoddol, y trydydd sector a gwasanaethau statudol. Bu cynnydd hefyd yn nifer yr aelodau sydd â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon. Mae'r fforwm yn gweithio'n barhaus mewn ffyrdd arloesol i sicrhau bod llais y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed.

Bellach, cynhelir y fforwm mewn tri lleoliad corfforol ar draws y sir, ac mae opsiwn hefyd i ymuno'n rhithiol. Mae'r dull hybrid / aml-leoliad hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth ehangu'r cyfleoedd i gael mynediad ac wedi cael derbyniad cadarnhaol gan aelodau.

Bu cynrychiolwyr y Fforwm Byw'n Dda yn cymryd rhan yng ngweithdai cydgynhyrchu Powys, gyda chynrychiolaeth gan sefydliadau a dinasyddion ar draws y sir.

Derbyniodd y fforwm yr her o dreialu a mireinio Traciwr y Daith Gydgynhyrchu. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae camau gweithredu a blaenoriaethau'r fforwm wedi'u nodi ac fe'u hadolygir a'u monitro yn barhaus o fewn y fforwm.

Mae'r fforwm wedi dewis canolbwyntio ar wahanol feysydd ar gyfer trafodaeth y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Mynediad at Waith, Cefnogaeth Briodol ar yr Amser Cywir, a Thrafnidiaeth. Rydym wedi edrych ar beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd ddim mor dda, a beth sydd angen digwydd. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn a helpu i ysgogi newid, mae'r fforwm wedi enwebu cynrychiolydd i ddod yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Byw'n Dda i gyfrannu ac i wella'r cyfathrebu dwyffordd rhwng y fforwm a gwaith y bwrdd.



*Rhoddir ffocws ar chwilio am ffyrdd o gynyddu aelodaeth y rhai sydd â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon ymhellach, ac rydym wedi cydgynhyrchu tudalen we benodol i'r Fforwm Byw'n Dda, gan rannu beth mae'r fforwm yn ei wneud a sut i gymryd rhan. Gallwch weld y dudalen we ar [Cael Dweud eich Dweud Powys](#).*

## Fforwm Pobl Hŷn

Cafodd Fforwm Pobl Hŷn Powys ei ailgychwyn eleni gyda'r nod o gynyddu nifer y trigolion 60+ mlwydd oed ym Mhowys sy'n cael eu cynrychioli, drwy recriwtio o bob un o'r 13 ardal leol.

Mae'r aelodau'n cynnwys pobl o bob rhan o'r sir, gyda chynrychiolaeth ymysg meysydd diddordeb penodol, gan gynnwys unigolion sy'n byw mewn tai â chymorth neu gartrefi gofal, gofalwyr di-dâl, rhai sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd, unigolion LGBTQ+, a siaradwyr Cymraeg.

Cynhaliwyd un deg naw o ddigwyddiadau ymgysylltu'r Fforwm Pobl Hŷn ar hyd a lled y sir, gyda dros 400 o bobl hŷn yn rhannu eu barn am wasanaethau a materion sy'n effeithio arnynt yn eu cymunedau lleol.

Cyflwynwyd ffurflen ar-lein newydd gan y grŵp i ganiatáu i drigolion hŷn adrodd ar faterion ar unrhyw adeg.

**Roedd sgwrs mewn digwyddiad ymgysylltu yn Llanidloes wedi tynnu sylw at yr angen am wybodaeth eglurach i drigolion ynghylch y newidiadau i'w hysbyty lleol mewn perthynas â'r unedau *"Parod i fynd adref".***

**Arweiniodd hyn at greu deunyddiau i chwalu nifer o fythau oedd yn cylchredeg am ddyfodol yr ysbytai hyn, drwy gydweithio â thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd.**








Daeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Rhian Bowen-Davies, i sesiwn ymgysylltu yn y Neuadd Les yn Ystradgynlais i glywed am bryderon trigolion a'r hyn sydd wedi gweithio'n dda iddynt.

## Offer Digidol

Rydym ni wedi parhau i adeiladu ar gyfleoedd digidol yn ymwneud ag ymgysylltu.

**Bu 45,536 o ymweliadau â safle 'Cael Dweud eich Dweud' (*Engagement HQ* Powys), gyda 7,700 o ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu.**




**(1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025)**

Trwy'r llwyfan *Engagement HQ*, gall y bartneriaeth gael mynediad at y dulliau ymgysylltu diweddaraf megis arolygon cyflym, tanysgrifio cymdeithasol, a grwpiau ffocws ar-lein, i helpu i gasglu meddyliau pobl mewn modd amserol.

## Fforwm Gwerth Cymdeithasol

Mae Gwerth Cymdeithasol yn parhau i fod yn gonglfaen allweddol o ran cefnogi pobl ym Mhowys i wella canlyniadau iechyd a lles drwy ffocws ar waith atal a chefnogaeth o fewn y gymuned.

Eleni, gwnaed llawer o gynnydd gan a thrwy Fforwm Gwerth Cymdeithasol Powys. Ymhlith yr effeithiau a amlygwyd mae:

- **Dros 500 o sefydliadau'r trydydd sector yn cymryd rhan yn y fforwm**
- **Datblygwyd 303 o weithgareddau sy'n gysylltiedig â mentrau Gwerth Cymdeithasol**
- **85% wedi adrodd bod mentrau newydd neu fentrau a ddatblygwyd wedi helpu i wella lles.**

Eleni, comisiynwyd adroddiad gan RPB Powys i ddeall effaith y Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn well dros y pedair blynedd diwethaf a mwy. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r sefydliadau a gafodd gyllid a sut y defnyddiwyd y cyllid hwn i fynd i'r afael â bylchau a blaenoriaethau a nodwyd yn y gymuned, yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth Iechyd a Gofal.

**Trosolwg Ariannu:**

- Roedd y grantiau a ddyfarnwyd yn 2020 ac yn gynnar yn 2021 yn mynd i'r afael â heriau digynsail pandemig COVID-19..
- Ymatebodd rowndiau cyllido diweddarach i anghenion a nodwyd ar lefel gymunedol.
- Mae'r adroddiad yn manylu ar gyrhaeddiad daearyddol a demograffig y gronfa, gan arddangos y gweithgareddau a gefnogwyd a'u canlyniadau.

**Cyfreithlondeb a Chynaliadwyedd:**

- Er nad yw pob prosiect wedi parhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben, mae llawer ohonynt wedi esblygu'n fodelau hirdymor neu wedi ehangu eu cyrhaeddiad.
- Mae'r adroddiad yn dangos sut mae gwasanaethau statudol a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, gan atgyfnerthu gwerth ychwanegol partneriaeth wrth wella iechyd a lles trigolion Powys.

**Prif Ganfyddiadau**

- **Effaith y Cyllid:** Rhwng 2020 a 2025, dyfarnwyd cyfanswm o £1,051,848.46 i 103 o sefydliadau'r trydydd sector drwy gyllid Fforwm Gwerth Cymdeithasol, a weinyddir

gan PAVO. Cydgynhyrchwyd blaenoriaethau cyllido gan grwpiau Rhwydwaith Lleol ar draws Powys er mwyn adlewyrchu anghenion lleol a bylchau yn y ddarpariaeth.

- **Cynaliadwyedd:** Allan o'r 103 o brosiectau a gafodd gyllid, mae 46 (44%) yn dal i ddarparu gwasanaethau, naill ai drwy sicrhau cyllid pellach, gweithredu model codi tâl, neu integreiddio'r gwasanaeth i gostau gweithredol a gynlluniwyd, er enghraifft, Tŷ Gobaith.

- **Ymateb i COVID-19:** Derbyniodd 59 o sefydliadau gyllid hanfodol oedd yn gyfanswm o £221,848.46 yn 2020-21, gan gyfrannu tuag at yr ymdrech gyffredinol i ymateb i COVID-19 ym Mhowys. Darparodd y cyllid hwn linell achub i lawer o bobl oedd yn teimlo'n ynysig ac yn unig oherwydd y pandemig.

- **Effaith Gadarnhaol:** Roedd y mwyafrif o grwpiau yn adrodd effaith gadarnhaol ar les cymdeithasol, corfforol a meddyliol defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr a swyddogion dan sylw. Mae adborth o ddiwedd blwyddyn gyntaf cyfnod cyllido 2023–2025 yn dangos:

    - Cafodd 345 o fuddiolwyr fynediad at y 5 prosiect 1677 o weithiau rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth (2 chwarter).
    - Dywedodd 94% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod yn teimlo'n llai unig.
    - Mae 78% yn cynnal neu'n gwella eu hiechyd a'u lles emosiynol.
    - Dywedodd 89% fod eu hannibyniaeth wedi gwella neu wedi aros yr un fath.
    - Mae 92% yn teimlo'n fwy hyderus wrth gael mynediad at wasanaethau.
    - Cafodd 91% gymorth a helpodd i atal eu hanghenion rhag gwaethygu.
    - Mae nifer o grwpiau'n parhau i gyfarfod ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau'n anffurfiol ar ôl i'r prosiect a ariennir ddod i ben.

- **Cyflogaeth:** Darparodd prosiectau gyflogaeth â thâl i swyddogion y trydydd sector mewn rolau a gafodd eu hariannu.

- **Cryfder y Broses:** Caiff proses y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ei chryfhau gan wybodaeth a phrofiad swyddogion PAVO. Fel cyswllt rhwng y trydydd sector a'r sector statudol, mae PAVO yn cyfrannu at effeithiolrwydd y broses grantiau.

***"Pan mae'n dod at drafod ceisiadau am wasanaeth mewn ardal benodol, mae gan PAVO wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd eisoes yn yr ardal honno. Mae cael y wybodaeth gefndirol honno'n golygu bod gan PAVO syniad cynhwysfawr am yr hyn sydd ei angen, fel bod yr arian yn cael ei wario'n briodol. Mae llawer o bobl wybodus yn rhan o'r broses."***

I gael rhagor o wybodaeth am Fforwm Gwerth Cymdeithasol Powys, edrychwch ar dudalen we y RPB yma neu edrychwch ar y ffilm fer hon i ddysgu mwy am y fforwm, y gronfa ddatblygu, a sut mae'n gweithio.









# YR ADNODDAU AR GYFER Y GWAITH HWN

Mae'r Bwrdd yn defnyddio ei ddyraniadau o gronfeydd refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru fel adnodd allweddol. Daw'r gyfran fwyaf o gyllid refeniw o'r *Gronfa Integreiddio Rhanbarthol* (RIF). Mae'r *Gronfa Tai â Gofal* (HCF) hefyd yn cael ei defnyddio i ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith cyfalaf y Bwrdd.

Gwneir penderfyniadau ynghylch defnyddio cyllid ar y cyd gan aelodau'r Bwrdd. Cyflwynir cynigion ar gyfer sut y caiff ei ddefnyddio gan bartneriaethau'r Bwrdd (Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda) sy'n cynnwys mewnbwn rhanddeiliaid eraill a chynrychiolwyr dinasyddion/gofalwyr.

Caiff gwariant ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol dda o'r cyllid ac i sicrhau'r manteision mwyaf posibl ohono. Mae arian ychwanegol hefyd wedi'i neilltuo ar gyfer rhai prosiectau ac mae cyfraniadau sylweddol o hyd o ran amser ac adnoddau staff.

Wrth i'r RPB barhau i ddatblygu, bydd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gyrchu cyllid arall er mwyn gwneud y mwyaf o gyrhaeddiad ac effaith ei waith. Dyma ddadansoddiad o'r cyllid refeniw a chyfalaf a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn 2024-25:



# BLAEN-OLWG

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn parhau'n gwbl ymrwymedig i weithio gyda'n gilydd i wella canlyniadau iechyd a lles i bobl ar draws Powys. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos gwerth cydweithio, ac mae ein ffocws yn parhau i fod ar gryfhau a dyfnhau ein partneriaethau, meithrin arloesedd, a sicrhau bod pobl wrth galon popeth a wnawn.

**Ein Ffocws Strategol ar gyfer y Flwyddyn i Ddod**

Bydd gwaith y RPB yn parhau i gael ei lywio gan ein Cynllun Ardal ar y Cyd (2023–2027), gyda Chynllun Cyflawni Blynyddol clir a phwrpasol ar gyfer 2025–26. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau penodol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni newid gwirioneddol, gyda phwyslais cryf ar waith atal, llais dinasyddion; gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio; arloesedd a dysgu; a chynnal arfer da.

**1. Atal yn Gyntaf: Cefnogi pobl yn gynnar ac yn nes at adref**

Mae gwaith atal yn parhau i fod yn edefyn euraidd drwy ein gwaith eleni — o Hybiau Cymorth Cynnar i blant a theuluoedd, i wasanaethau cymorth cymunedol i bobl hŷn. Yn 2025–26, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn modelau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n lleihau'r angen i'r sefyllfa waethygu ac yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol am hirach.

**2. Cydgynhyrchu ac Ymgysylltu: Rhoi Pobl yn Ganolbwynt**

Rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol wrth gynnwys dinasyddion a gofalwyr wrth lunio gwasanaethau — o'r Bwrdd Dechrau'n Dda Iau i'r Fforymau Byw'n Dda a Phobl Hŷn. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn mynd gam ymhellach.

- Byddwn yn parhau i dreialu a mireinio Traciwr Taith Gydgynhyrchu Powys, gan ein helpu i feithrin partneriaethau mwy cyfartal gyda chymunedau.
- Byddwn yn cryfhau Rhwydwaith Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Powys (PEIN), gan sicrhau bod mewnwelediad yn llywio pob cam o'r broses gynllunio a chyflawni.
- Byddwn yn cefnogi mwy o bobl â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys drwy hyfforddiant, mentora, ac offer ymgysylltu hygyrch.

**3. Integreiddio a Gweithio ar y Cyd**

Mae cryfder y RPB yn gorwedd yn ei allu i ddod â phartneriaid ynghyd o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a'r trydydd sector. Eleni, rydym wedi gweld manteision y dull hwn mewn ystod o brosiectau.

Yn 2025–26, byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu modelau integredig o ofal, gan gynnwys rolau aseswyr dibynadwy a system froceriaeth ar y cyd.
- Cryfhau ein defnydd o ddata a deallusrwydd ar y cyd drwy offer newydd fel y Dangosfwrdd Galw a Chapasiti newydd a Dangosfyrddau Adrodd y RPB.
- Cefnogi datblygiad gweithlu ar y cyd drwy Raglen Dyfodol y Gweithlu, gan gynnwys cynefino ar y cyd, hyfforddiant arweinyddiaeth, a llwybrau gwirfoddoli.

**4. Arloesedd a Dysgu: Adeiladu system fwy gwydn**

Mae arloesedd wedi bod yn alluogwr allweddol i gynnydd — byddwn yn parhau i feithrin diwylliant o ddysgu a gwella ar draws y bartneriaeth:

- Byddwn yn parhau i gryfhau ein dulliau adrodd sy'n cyfuno data â phrofiad bywyd o lygad y ffynnon er mwyn deall effaith yn well.
- Byddwn yn rhannu arferion da ar draws Powys ac ymhellach, gan gyfrannu at ddysgu a datblygu polisi cenedlaethol.
- Byddwn yn cefnogi arloesedd drwy Hwb Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol, gan helpu partneriaid i dreialu a graddio syniadau newydd.

**5. Cynllunio Strategol a ffocws ar Gynaliadwyedd: Paratoi ar gyfer y Dyfodol**

Wrth inni agosáu at flynyddoedd olaf ein Strategaeth Iechyd a Gofal bresennol a'n prif raglenni cyllido, byddwn yn dechrau siapio'r bennod nesaf, gan gynnwys:

- Adolygu ein cynlluniau cyflawni ac adnoddau i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben, yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau mwyaf yn y system.
- Cynllunio ar gyfer dyfodol rhaglenni sydd â therfyn amser, gan sicrhau bod strategaeth eglur gan fentrau llwyddiannus ar gyfer dod i ben neu drosglwyddo.

# Cynllun Cyflwyno Blynyddol

## Partneriaeth Dechrau'n Dda

Nod y Bartneriaeth Dechrau'n Dda yw cryfhau a thrawsnewid gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym Mhowys. Mae'r Bartneriaeth yn anelu at gyflawni rhai o brif flaenoriaethau Bwrdd Dechrau'n Dda ar draws y sbectrwm o angen, gan gynnwys plant ag anghenion cymhleth, gyda ffocws ar – ac wedi'i lywio gan – y sylfaen dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc, yr agweddau sydd bwysicaf i les poblogaeth Powys, a'r ymyriadau sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol i fynd i'r afael â rhai o'r anghenion mwyaf cymhleth a nodwyd.

| Prosiectau Strategol - 2025/2026 | Disgrifiad | Dyraniad Ariannol |
|---|---|---|
| **Rhaglen Iechyd a Lles Emosiynol (gan gynnwys NYTH / NEST)** | Bydd y Prosiect Iechyd a Lles Emosiynol yn cefnogi gwasanaethau i ddarparu rhaglen lles estynedig o gymorth i blant a phobl ifanc ar draws Powys, gan ddefnyddio dull system gyfan sy'n unol â model NYTH/NEST. Bydd yn darparu capasiti ychwanegol i wasanaethau sydd eisoes yn darparu cymorth iechyd emosiynol, yn ogystal â phrosiectau newydd yn seiliedig ar anghenion a nodwyd, yn bennaf ar lefel ymyrraeth gynnar a gwaith atal. Bydd y Tîm Therapiwtig ac Ymlyniad Cadarnhaol newydd yn darparu cymorth iechyd emosiynol i ymarferwyr a staff, yn ogystal ag ymyrraeth therapiwtig uniongyrchol i'r plant neu bobl ifanc hynny nad ydynt yn cael cymorth drwy wasanaethau eraill. | £627,590.00 |
| **Gwasanaeth Plant ar Ymyl Derbyn Gofal** | Bydd gwasanaeth/prosiect Plant ar Ymyl Derbyn Gofal Powys yn cefnogi plant a theuluoedd sydd mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol – a elwir fel arfer yn gymorth "Ar Ymyl Derbyn Gofal". Nod y gwasanaeth fydd atal yr angen i blant gael eu rhoi mewn gofal drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol a allai arwain at sefyllfaoedd | £591,700.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | o'r fath. Yn ogystal, bydd y prosiect yn cynnig cymorth i deuluoedd mewn argyfwng, gan helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd ac atal y trawma sy'n gysylltiedig â gwahanu teuluol. Bydd yn gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar achosion sy'n wraidd problemau, megis materion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, a thrais domestig, gan ddarparu ymyriadau wedi'u teilwra i fynd i'r afael â'r heriau hyn. | |

## Partneriaeth Byw’n Dda

Nod y Bartneriaeth Byw’n Dda yw creu amgylchedd cefnogol a grymusol ym Mhowys a fydd yn galluogi pobl i “Fyw’n Dda” ac i gyflawni canlyniadau iechyd da, drwy fod yn iach ac yn egnïol a thrwy allu cael y cymorth a’r gefnogaeth gywir, ar yr adeg gywir. Bydd y Bartneriaeth yn mynd i’r afael â’r ffactorau ehangach sy’n dylanwadu ar iechyd a lles poblogaeth oedran gweithio ym Mhowys, drwy lens iechyd cyhoeddus a datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau - gan gynnwys cryfhau a thrawsnewid dulliau gweithio a gwasanaethau i bobl ag anableddau.

| Prosiectau Strategol - 2025/2026 | Disgrifiad | Dyraniad Ariannol |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS)** | Bydd y prosiect hwn yn cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer Awtistiaeth ymhellach trwy'r Grŵp Cyfarwyddo Awtistiaeth Strategol, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer amgylcheddau niwrol ehangach yn unol â chôd Ymarfer Awtistiaeth. Mae'n cael ei gydnabod bod gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth a chyflawniadau niwrodiffygiol eraill yn anghyson ac yn annigonol ledled Cymru, gan gynnwys Powys. Bydd y prosiect yn ceisio gwella capasiti yn y gwasanaethau presennol a mynd i'r afael â bwlch sylweddol yn y gefnogaeth trwy ddull system cyfan a bydd yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ar draws sectorau, fel iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Bydd y gwelliant yn cael ei gomisiynu gyda phobl sydd gan brofiad o fyw. Mae'r rhaglen wella'n bwysig i gyflwyno newid trawsnewidiol gan leihau gweithgareddau ymatebol fel mentrau rhestrau aros, tra'n parhau i dyfu gwasanaethau arloesol, a gynhelir gyda'n gilydd, sy'n cefnogi teuluoedd cyn a ar ôl diagnosis. | £337,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| **Iechyd a Lles Emosiynol a Chorfforol Byw'n Dda** | Bydd y prosiect hwn yn darparu cydlynu ac adnoddau strategol i sicrhau bod iechyd a lles emosiynol a chorfforol yn egwyddor ganolog ar draws holl weithrediad y bartneriaeth Byw'n Dda, yn ogystal â datblygu gwaith yn y dyfodol gan gynnwys cydweithio ar draws partneriaethau gyda gwasanaethau cefn gwlad, byw'n weithgar, hamdden a ffitrwydd, cynaliadwyedd, a'r celfyddydau a diwylliant ar draws Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, y Trydydd Sector a sefydliadau cymunedol. Bydd y gwaith hwn, yn unol ag amcanion y bartneriaeth Byw'n Dda, yn cefnogi'r symudiad parhaus tuag at fodel cymdeithasol o anabledd a dull sy'n seiliedig ar gryfderau o ran iechyd a lles, gan alluogi unigolion i gael mynediad at gymorth yn annibynnol, tra'n mynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd ar draws partneriaid. | £100,470.00 |
| **Gofal a Chefnogaeth Gymhleth** | Bydd y prosiect hwn yn cefnogi pobl ag anghenion cymhleth i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth, cael llais, dewis a rheolaeth, gan eu galluogi i fyw a ffynnu yn eu cymunedau, drwy ddatblygu'r seilwaith iechyd a gofal ynghyd ag adnoddau llety a chymorth o fewn y sir. Bydd y prosiect hefyd yn datblygu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol a modelau gofal amgen, gan alinio â'r symudiad tuag at waith atal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gan bobl lais, dewis a rheolaeth a'u bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir i fyw bywydau cyflawn yn eu cymunedau eu hunain. | £129,941.00 |
| **Seibiant Brys ac wedi'i Gynllunio ar gyfer Gofalwyr** | Bydd y prosiect hwn yn galluogi gofalwyr di-dâl i dderbyn seibiant arloesol, pwrpasol ac wedi'i ganolbwyntio ar yr unigolyn, a ddarperir mewn ffordd unigryw i unigolion neu deuluoedd. Nid yw hyn bob | £18,697.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | amser yn dilyn y model traddodiadol o seibiant ac mae'n galluogi teuluoedd i roi cynnig ar rywbeth gwahanol i weld a yw'n addas iddynt cyn ymrwymo i drefniant tymor hir neu ofyn am gyllid neu wasanaethau statudol. Mae'r prosiect hwn wedi gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr drwy roi egwyl iddynt o'u rôl gofalu, gan ddangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod y gwaith y maent yn ei wneud yn bwysig. Bydd y prosiect yn cynnwys grantiau pwrpasol sy'n rhoi gobaith ac ymdeimlad o gael gwrandawiad gwirioneddol. Mae hyn, ynghyd â chamau gweithredu sy'n digwydd mewn modd amserol, yn gwneud yr holl wahaniaeth. Bydd y prosiect yn gweithio'n hyblyg i ymateb i seibiant sydd wedi'i gynllunio yn ogystal â darpariaeth seibiant sy'n fwy brys neu mewn argyfwng. | |
| **Cefnogaeth Iechyd Meddwl Amenedigol Byw'n Dda** | Bydd y prosiect yn gweithio gyda menywod, dynion a'u teuluoedd, ymarferwyr, sefydliadau'r trydydd sector a gwirfoddol ar draws Cymru, i sicrhau bod pawb sydd angen cymorth yn derbyn y gofal cywir, ar yr adeg gywir ac oddi wrth y bobl gywir. Mae iechyd meddwl cynenedigol yn cwmpasu'r cyfnod yn ystod beichiogrwydd a blwyddyn gyntaf bywyd y babi. Bydd y prosiect yn datblygu model arbenigol o ofal iechyd meddwl cynenedigol drwy ddull cydweithredol mewn partneriaeth er mwyn sicrhau llwyddiant. Bydd hyn yn cynnwys llwybr cynhwysfawr o gymorth yn y gymuned hyd at ddarpariaeth arbenigol gan y GIG. Yn fwy na hynny, bydd y prosiect yn parhau i weithio tuag at achrediad drwy'r safonau cenedlaethol sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru. | £52,979.00 |

**Partneriaeth Heneiddio'n Dda**

Nod y Bartneriaeth Heneiddio'n Dda yw cefnogi pobl hŷn (gan gynnwys y rheini sy'n eiddil neu sydd â bregusrwydd cof) i fyw bywyd annibynnol a llawn, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd yn y gymuned a darparu gofal yn nes at adref drwy ddull gweithredu ar sail ymyrraeth gynnar a gwaith atal. Lle na ellir diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion mewn lleoliad cymunedol neu yn eu cartrefi eu hunain, rhoddir pwyslais ar gynyddu capasiti a gallu er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth yn y lleoliad mwyaf priodol i'w hanghenion, gyda'r pwyslais eto ar ethos 'cartref yn gyntaf'.

| Prosiectau Strategol -2025/2026 | Disgrifiad | Dyraniad Ariannol |
|---|---|---|
| **Gwella Gofal Heb ei Drefnu** | Bydd y prosiect yn galluogi'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i barhau i dreialu dulliau o leddfu'r pwysau ar ysbytai, er mwyn galluogi gwasanaeth cymorth sy'n gallu rhyddhau cleifion yn brydlon ac yn darparu cymorth adferiad/ail-alluogi i unigolion yn eu cartrefi ac yna eu hasesu. Mae hyn yn cynnwys hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai sydd ag anghenion lefel isel ond sydd efallai'n gofyn am ofal penodol neu gymorth preswyl. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynnal mynediad hanfodol at ofal brys mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, gan gynnwys mân anafiadau a llwybrau y tu allan i'r ysbyty, yr ethos 'cartref yn gyntaf' gyda rhyddhau i adfer ac asesu, a'r model ysbyty rhithiol. Bydd hefyd yn sicrhau bod gwaith y prosiect yn cyd-fynd â Chynlluniau a Rhaglenni Cenedlaethol, gan gynnwys cydweithio â darparwyr a systemau cyfagos - sy'n hollbwysig i Bowys oherwydd cymhlethdod y llwybrau a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ei thrigolion. Mae hyn yn cynnwys gwaith partneriaeth fel rhan o'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC). | £234,734.00 |
| **Broceriaeth wedi'i Integreiddio** | Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol i gyflwyno dull datblygedig o froceriaeth integredig ac aseswyr dibynadwy drwy ffrwd waith cartrefi gofal sy'n eiddo i Bowys, ac wrth wneud hynny, yn llwyr integreiddio comisiynu rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Bydd cwmpas y prosiect yn cynnwys brocera | £86,155.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | contractau gofal cartref Bwrdd Iechyd Addysgu Powys drwy DPS Cyngor Sir Powys am gyfnod cychwynnol er mwyn hwyluso gwerthusiad o'r dull hwn, gyda'r nod o'i ariannu'n barhaol o gyllideb y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd y cyfnod ariannu. Yn fwy na hynny, bydd yn galluogi swyddogion broceriaeth i fynychu unedau "Parod i Fynd Adref" i hwyluso dulliau aseswr dibynadwy ac i wella llif drwy'r system er mwyn galluogi dychweliad cyflymach adref.<br>Bydd y prosiect hefyd yn ceisio datblygu comisiynu ar y cyd gwell ar gyfer gofal preswyl a nyrsio drwy ddulliau integredig fel rhan o ffrwd waith cartrefi gofal sy'n eiddo i Bowys. | |
| **Tîm Trin Dementia yn y Cartref (DHTT)** | Bydd prosiect y Tîm Trin Dementia yn y Cartref (DHTT) yn datblygu'r gwasanaeth ymhellach i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, neu debygol o fod â dementia, i fyw yn y lle maent yn ei alw'n gartref. Pwrpas y prosiect yw rheoli'r straen a'r gofid sy'n gysylltiedig ag Ymddygiadau a Symptomau Seicolegol Dementia (BPSD), a gwneud hynny drwy gefnogi'r unigolyn sy'n profi'r symptomau hyn i aros yn eu cartref eu hunain, neu eu man preswyl arferol. Nod y prosiect yw lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhai o'r anawsterau emosiynol, seicolegol ac ymddygiadol sy'n gysylltiedig â dementia, a allai arwain at argyfwng — ac yn y pen draw, at dderbyniad i Ward Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn pe na bai'r DHTT yn ymyrryd. | £259,766.00 |
| **Clinig Asesu Cof Dementia (MAS)** | Bydd y prosiect yn datblygu ac esblygu darpariaeth Tîm Triniaeth Cartref Dementia De Powys (DHTT) ymhellach, sef "tîm o amgylch yr unigolyn" sy'n darparu gwasanaeth dementia cymunedol arbenigol sydd wedi'i dargedu, gan gefnogi cleifion sy'n byw yn ne Powys yn ystod cyfnodau o argyfwng i barhau i fyw'n llwyddiannus, yn ddiogel ac yn annibynnol gartref neu yn eu hamgylchedd gofal presennol (e.e. cartrefi preswyl / nyrsio). Bydd y prosiect yn sicrhau'r canlynol: alinio gyda Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan, darparu asesiadau risg arbenigol a rheoli | £133,000.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | achosion o fethiant lleoliad teuluol / cartref gofal, hwyluso rhyddhau prydlon o'r ysbyty i gleifion mewnol â dementia sydd ag anghenion cymhleth, partneru â'r trydydd sector i ddarparu'r gefnogaeth briodol i'r unigolyn sydd â dementia a'u teuluoedd/gofalwyr. | |
| **Cysylltwyr Dementia** | Bydd y prosiect yn recriwtio a datblygu tîm o gysylltwyr dementia, fel y'u diffinnir yn genedlaethol, i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr drwy gydlynu eu gofal yn fwy effeithiol ac amserol. Bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r her bod nifer o bobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia heb gael eu cefnogi gan wasanaethau statudol craidd ar gyfer dementia. Fodd bynnag, bydd swyddogaeth y rôl hon yn cael ei halinio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran cydlyniad, a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 o ran cydlynydd gofal. | £100,000.00 |
| **Unedau Asesu Powys/ Unedau Parod i Fynd i Adref** | Mae'r unedau Parod i Fynd Adref yn darparu gofal mwy penodol i bobl sydd yn barod i fynd adref ond sy'n aros am becyn gofal yn y gymuned. Mae'r rhaglen waith yn helpu pobl i barhau i symud a bod yn weithgar, sy'n bwysig er mwyn lleihau'r risg o ddirywiad corfforol mewn lleoliad ysbyty. Bydd hyn yn ceisio sicrhau cynyddu lles a gallu pobl i weithredu, ac i lapio cymorth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r trydydd sector o amgylch yr unigolion hyn gyda'r nod o sicrhau eu rhyddhau cyn gynted â phosibl i'w gofal tymor hir. Bydd y prosiect hwn yn tynnu ar y dystiolaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau, gofynion cyfreithiol a pholisi, y llwybrau gorau posibl a datganiadau ansawdd. | £600,000.00 |

**Rhaglenni Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd**

Gweledigaeth a phwrpas y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd yw cefnogi dinasyddion Powys i fyw gartref gyda hyder, mewn iechyd a lles da, yn annibynnol ac yn ddiogel, a'u bod yn gallu helpu eu hunain ac yn gallu cael mynediad at y cymorth a'r gofal cywir, yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir.

| Prosiectau Strategol - 2025/2026 | Disgrifiad | Dyraniad Ariannol |
|---|---|---|
| **Powys Ynghyd** | Mae Prosiect Powys Ynghyd yn brosiect sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol sy'n gweithio gyda chymunedau yn Y Drenewydd, Y Trallwng, Llanidloes a Machynlleth. Nod Prosiect Powys Ynghyd yw creu newid systemig o fewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mhowys, gan gynyddu cyfleoedd a lleihau anfantais i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd Prosiect Powys Ynghyd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddatblygu a darparu prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n diwallu anghenion y cymunedau. Bydd y prosiect yn gweithio o fewn cymunedau ochr yn ochr â sefydliadau, gwasanaethau a rhwydweithiau eraill i gydlynu a gwella'r gwasanaethau a'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu eisoes. Mae Prosiect Powys Ynghyd yn ymgynghori â'r cymunedau ac yn gwrando arnynt er mwyn deall anghenion lleol a mynd i'r afael â bylchau a nodwyd. | £136,800.00 |
| **Gwasanaeth Cyfeillio Powys (PBS)** | Bydd y prosiect yn adeiladu ar y prosiect sydd eisoes wedi'i sefydlu i wella annibyniaeth pobl 50+ mlwydd oed er mwyn cynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol a pharhau i fyw'n annibynnol, gan leihau neu ohirio'r angen am wasanaethau iechyd a chymdeithasol lefel uwch. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy leihau unigrwydd ac arwahanrwydd drwy hwyluso datblygu gweithgareddau cyfeillio a darparu gweithgareddau cymdeithasol i bobl 50+ mlwydd oed. Drwy'r gweithgareddau hyn, byddwn yn cefnogi unigolion i gyflawni tasgau bywyd bob dydd yn annibynnol, dysgu sgiliau newydd, teimlo'n rhan o'u cymuned leol, ac yn galluogi gofalwyr i gael seibiant o'u trefn ofalu. Bydd y prosiect yn darparu gwasanaeth cyfeillio o ansawdd ar draws y sir, gan gynnal ac ehangu rhwydwaith o wirfoddolwyr cyfeillio ar draws pob cymuned ddaearyddol, gan gynnig gweithgareddau cyfeillio un i un ac mewn grwpiau, yn ogystal | £244,692 |

| | | |
|---|---|---|
| | â chymorth emosiynol wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac yn ddigidol am gyfnod o 12 mis. Wedi hynny, bydd y cleientiaid yn gallu cael mynediad yn annibynnol at gyfleoedd cymdeithasol yn y gymuned. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu â llawer o asiantaethau cyfeirio yn y sector statudol a gwirfoddol. | |
| **Cymorth Cartref** | Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cartref yn wasanaeth atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer dinasyddion (50+) sy'n galluogi ac yn darparu'r cymorth a'r gefnogaeth ymarferol y gall unigolyn fod ei angen yn ei fywyd bob dydd i fyw gartref gyda hyder, mewn iechyd da, yn annibynnol ac yn ddiogel. Mae gwasanaethau Cymorth Cartref yn rhad ac am ddim. Bydd y prosiect hwn yn ceisio integreiddio'r gwasanaeth i'r Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd ac ehangu ei gyrhaeddiad a'i effaith ar ôl cael ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn ardaloedd allweddol. Nid yw mynediad i'r gwasanaeth hwn yn seiliedig ar brawf modd nac yn ddibynnol ar feini prawf cynnwys/gwahardd, ac mae'n bosibl i unigolion hunangyfeirio. Mae rhai o'r pethau y gall Cymorth Cartref helpu gyda nhw yn cynnwys: ymatebwyr llinell gofal cymunedol 24/7/365, gwiriadau lles rhagweithiol, hyrwyddo annibyniaeth, lles a ffyrdd o fyw iach, cymorth a chefnogaeth ymarferol, cynorthwyo gofalwyr gyda'u rôl, cymorth a gofal personol dros dro, yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth i gael mynediad at grwpiau cymunedol lleol, cefnogaeth a gwasanaethau. | £311,874.00 |
| **Cysylltwyr Cymunedol** | Bydd y prosiect yn adeiladu ar lwyddiant y Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol sydd eisoes wedi'i sefydlu i gefnogi pobl (18 oed a hŷn) i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol sy'n eu helpu i gynnal bywydau annibynnol ac i atal yr angen am wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol lefel uwch, yn ogystal â hybu rhyddhau cynnar o'r ysbyty. Bydd y ffocws ar: cefnogi pobl i gael mynediad at y gwasanaethau cymunedol cywir ar yr adeg gywir; gweithio gydag iechyd a gofal cymdeithasol i atal derbyn i'r ysbyty; a gweithio gydag iechyd, gofal cymdeithasol a'r | £632,850.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | trydydd sector i gefnogi pobl i fynd adref o'r ysbyty. Bydd y prosiect yn cefnogi'r dull o waith atal ac ymyrraeth gynnar drwy weithio gyda chleientiaid mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai/ meddygfeydd i nodi beth sy'n bwysig iddynt. Bydd ein tîm yn eu cefnogi i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol sy'n eu cefnogi.<br><br>Bydd y Cysylltwyr Cymunedol yn parhau i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth yn unol â'r model presgripsiwn cymdeithasol, sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i mewn i Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol. | |
| **Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC)** | Gall Gofal a Alluogir gan Dechnoleg ddarparu cymorth i unigolion bregus, gan leihau, osgoi neu ohirio'r angen am gymorth wyneb yn wyneb gan asiantaethau gofal er enghraifft. Gall technoleg hefyd ddarparu cymorth i ofalwyr di-dâl i gadw "llygad o bell" ar y person sy'n derbyn gofal, gan alluogi gofalwyr teuluol i gael neu gynnal bywyd y tu allan i'w rôl gofalu. | £155,200.00 |
| **Gwerth Cymdeithasol** | Bydd y prosiect yn meithrin ac yn galluogi gweithgaredd gwirfoddol ar lefel leol ym mhob cymuned ar draws Powys. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y prosiect yn cydlynu ac yn hwyluso'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol. Mae'r Rhwydweithiau Lleol yn bwydo i mewn i'r Grŵp Cydlynu Gwerth Cymdeithasol, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol. Bydd y dull hwn yn rheoli cynllun grantiau (gan gynnwys monitro a gwerthuso'r gwasanaethau a ariennir) ac yn darparu cymorth datblygu i sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau gwerth cymdeithasol. Mae'r ymyriadau'n amrywiol ac wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghenion sydd heb eu diwallu ac i gyrraedd poblogaethau sy'n flaenoriaeth. Mae gan y Grŵp Cydlynu Gwerth | £242,726.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymdeithasol fynediad at ddeallusrwydd lleol drwy’r Rhwydweithiau o ran anghenion heb eu diwallu neu ddarpariaeth anghyfartal. Mae’r dull cydgynhyrchu hwn yn galluogi dynodi bylchau mewn gwasanaethau, gan arwain at flaenoriaethu poblogaethau, lleoliadau daearyddol neu anghenion penodol. Mae sefydliadau Gwerth Cymdeithasol yn gallu gwneud cais i’r gronfa am adnoddau i ddatblygu atebion arloesol a chynaliadwy, er mwyn sicrhau mwy o degwch wrth gael mynediad at wasanaethau a chymorth i oresgyn heriau i unigolion a chymunedau. | |
| **Cefnogi Bywyd Ochr yn Ochr â Gofalu** | Bydd y prosiect hwn yn galluogi gofalwyr di-dâl i dderbyn seibiant arloesol, pwrpasol ac wedi’i ganolbwyntio ar y person, wedi darparu mewn ffordd unigryw ar gyfer unigolion neu deuluoedd. Mae'r prosiect hwn yn ceisio mynd y tu hwnt i fodel traddodiadol o seibiant ac yn galluogi teuluoedd i roi cynnig ar rywbeth gwahanol i weld a yw hyn yn gweithio iddyn nhw, cyn ymgymryd ag ymrwymiad tymor hwy neu ofyn am gyllid neu wasanaethau statudol.Mae'r elfen seibiannau byr yn y prosiect hwn yn darparu seibiant i ofalwyr sy'n cefnogi eu hamgylchiadau a bydd yn cyd-fynd â'u canlyniadau. Bydd hyn yn cael ei gydlynu gan Credu ac yn cael ei gyflawni drwy waith partneriaeth.I gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu, bydd y prosiect hwn yn darparu grantiau unigol a seibiannau byr sy'n cefnogi seibiant mewn llu o fodelau ac yn darparu digwyddiadau seibiant gyda chefnogaeth gan gymheiriaid, cyfeillgarwch ac ymdeimlad o berthyn gan liniaru teimladau o ynysu ac unigrwydd. Yn y pen draw, nod y prosiect hwn fydd atal gofalwyr di-dâl rhag cyrraedd pwyntiau argyfwng a'u galluogi i barhau yn eu rôl ofalu dros gyfnod estynedig. | £163,841.00 |
| **Prosiect Adnabod a Gwerthfawrogi Gofalwyr Di-dâl** | Bydd y prosiect hwn yn codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl, trwy waith arloesol ac ymatebol yn ddigidol, ar brint, wyneb yn wyneb, mewn digwyddiadau a chyflwyniadau, ym mhob lleoliad iechyd ac addysg, ac mewn partneriaeth â'r sectorau gwirfoddol a statudol ehangach. Y grŵp poblogaeth blaenoriaeth y mae'r prosiect hwn yn anelu at ei gyrraedd yw gofalwyr cudd, ynysig yn ein cymunedau gwledig ym Mhowys. Yn ogystal, bydd y prosiect yn galluogi rhannu dysgu gyda'r bwriad o gefnogi ein gwasanaethau ym Mhowys ac yn lleihau'r siawns o chwalfa gofalwyr, a thrwy hynny leihau'r pwysau a brofir gan iechyd a gofal cymdeithasol. | £48,500.00 |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y prosiect yn cynnwys adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr ar draws grwpiau poblogaeth a bydd yn esblygu'r iaith a'r negeseuon a ddefnyddir yn gyson i fod hyd yn oed yn fwy cynhwysol. Nod eithaf y prosiect yw creu systemau cymorth cynaliadwy, hunangynhaliol, ymwybodol, a chefnogol ac ymgorffori hyn yn ymarfer. | |

## Rhaglen Gweithlu

Y gweithlu yw'r ffactor unigol pwysicaf yn ansawdd y gofal a ddarparwn ac felly mae'n greiddiol i gyflawni'r hyn a nodir yng Nghynllun Iechyd a Gofal Powys. Mae system iechyd a gofal Powys wedi amlinellu strategaeth gyffrous ar gyfer dyfodol ei gweithlu, gyda ffocws ar ofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar fwy o waith partneriaeth. Rydym yn ystyried ein gweithlu o fewn cyd-destun ehangach, ac mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio ar draws y sector preifat, annibynnol a'r trydydd sector. Rydym hefyd yn cydnabod bod gwirfoddolwyr a gofalwyr yn chwarae rhan sylweddol fel rhan o'n tîm.

| Prosiectau Strategol - 2025/2026 | Disgrifiad | Dyraniad Ariannol |
|---|---|---|
| **Dyfodol y Gweithlu** | Mae'r Rhaglen Dyfodol y Gweithlu yn thema alluogol o fewn y Strategaeth Iechyd a Gofal 2017–2027. Cydnabuwyd yn y strategaeth mai'r gweithlu yw'r ffactor pwysicaf unigol yn ansawdd y gofal a ddarparwn ac felly mae'n greiddiol i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. Nod y rhaglen waith yw galluogi'r canlynol: gweithlu ymrwymedig, cymhellol ac iach; cynyddu atyniad a recriwtio; modelau gweithlu di-dor; meithrin gweithlu sy'n barod yn ddigidol; galluogi addysg a dysgu rhagorol; arweinyddiaeth ac olyniaeth; a chynyddu cyflenwad gweithlu o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. | £476,000.00 |

## Rhaglen Llesiant Gogledd Powys

Mae rhaglen Llesiant Gogledd Powys yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i wella iechyd a lles ar draws gogledd Powys. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu cyfleuster o'r radd flaenaf yn Y Drenewydd.

| Prosiectau Strategol - 2025/2026 | Disgrifiad | Dyraniad Ariannol |
|---|---|---|
| Rhaglen Llesiant Gogledd Powys | Bydd y rhaglen yn darparu gwasanaethau lleol gwell ac wedi'u hehangu'n sylweddol, wedi'u cyflwyno o un lleoliad mewn cyfleuster cynaliadwy ac addas at y diben, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd, integreiddio ac arloesedd ar draws sectorau lluosog. Mae hon yn rhaglen hirdymor a fydd yn cynnig buddion sylweddol i'r gymuned leol, gan gynnwys ystod ehangach o wasanaethau yn cael eu darparu o fewn y sir. Bydd y rhaglen waith yn cynnwys datblygu campws lles amlasiantaethol yng nghanol Y Drenewydd, gan ddod ag iechyd a gofal cymdeithasol y dref ynghyd ochr yn ochr â darpariaeth gan y trydydd sector. Bydd y campws hefyd yn cynnwys adeilad newydd ar gyfer Ysgol Calon y Dderwen, drws ffrynt gyda gwasanaethau lles amrywiol, academi iechyd a gofal, gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, yn ogystal â llety ar gyfer byw â chymorth, myfyrwyr yr academi ac arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymweld. | £666,073 |

Bydd y flwyddyn i ddod yn un o weithredu a chyflawni parhaus — gan drosi ein huchelgeisiau a rennir yn ganlyniadau pendant i bobl Powys. Ein ffocws yw gwreiddio'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn ddyfnach ac yn ehangach ar draws y system, gan sicrhau bod arloesi yn dod yn rhan arferol o'r gwaith, bod cydgynhyrchu'n dod yn norm, ac y cynhelir ac y graddolir dulliau integredig ac ataliol.

Drwy aros yn ffyddlon i'n gwerthoedd a gweithio gyda'n gilydd fel un system, byddwn yn parhau i ysgogi newid ystyrlon, gwella bywydau, ac adeiladu Powys iachach a mwy gofalgar i bawb.

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys
Iechyd a Gofal Cymdeithasol

One Powys Yn Un

Powys Regional Partnership Board
Health and Social Care


**For more Information contact the Powys Regional Partnership Team**

**prpb@powys.gov.uk | www.powysrpb.org**